"CYMORTH IN PRACTICE"

"CYMORTH AR WAITH"

15 -16 Medi 2004
Llandrindod

Adroddiad y Gynhadledd

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynnwys

Cyflwyniad……. tudalen 3

Araith gan Jane Hutt ..... tudalen 5
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Araith gan Jane Davidson, ... tudalen 10
Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Araith gan Peter Clark, ……. tudalen 16
Comisiynydd Plant Cymru

Gweithdai'r Gynhadledd ……tudalen 17-57

Negeseuon o'r Gweithdai……. tudalen 56

Gwerthusiad a Sylwadau …… tudalen 57-59

Cymorth Ar Waith

Trefnodd Plant yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhadledd ddeuddydd ar y cyd dan y teitl 'Cymorth ar Waith' yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar y 15-16 Medi 2004.

Nod y gynhadledd hon oedd hwyluso rhwydweithio a rhannu arfer gorau ymhlith y rhai sy'n ymwneud â Phartneriaethau Fframwaith Iedled Cymru.

Y gynhadledd oedd y cyfle cyntaf ers lansio Cymorth i bawb gyfarfod a chanolbwyntio ar y dull o gyflwyno'r rhaglen Cymorth. Bu'r ddau ddiwrnod yn gyfle i rannu arfer gorau a syniadau blaengar, dysgu beth sy'n digwydd mewn rhannau eraill o Gymru, a thrafod anawsterau ac atebion.

Bu cynhadledd Cymorth hefyd yn gyfle i rwydweithio, gan alluogi'r rhai oedd yn cymryd rhan i adnewyddu hen gysylltiadau ac i lunio cysylltiadau newydd. Gobeithio bod y digwyddiad deuddydd wedi cynnig profiad pleserus a greodd syniadau newydd a chymell i'r brwdfrydedd barhau.

Cadeiriwyd y diwrnod cyntaf gan Rita Jones, Dirprwy Brif Weithredydd y Mudiad Ysgolion Meithrin, a'r ail ddiwrnod gan Sioned Bowen, Cyfarwyddydd Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Ddinbych. Mynychodd nifer o siaradwyr gwadd y gynhadledd, gan gynnwys Jane Hutt, AC a'r cyn Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Jane Davidson, AC a Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes a Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru. Cynhaliwyd y gynhadledd yn ddwyieithog.

Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys cyfres o weithdai llawn gwybodaeth i bawb gymryd rhan ynddynt. Gwahoddwyd pob Awdurdod i drefnu gweithdy, oedd yn tanlinellu agweddau mwyaf llwyddiannus rhaglen Cymorth yr Awdurdod hyd yn hyn.

Gwahoddwyd pob Awdurdod i ystyried y pwyntiau canlynol wrth ddatblygu ei weithdy:

- A yw eich Awdurdod wedi datblygu prosiect blaengar?
- A oes gennych brosiect sy'n arbennig o lwyddiannus sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc yn eich ardal?
- A ydych wedi cael profiad arbennig o dda yn ymwneud â gwerthuso, asesu anghenion neu gyfranogiad?
- A ydych wedi llwyddo i oresgyn unrhyw anawsterau mawr ac a fyddech yn hoffi rhannu eich profiad gydag eraill o Gymru?

Gwahoddwyd pob gweithdy i gynhyrchu neges i'r Cynulliad, bwydwyd y negeseuon yn ôl ar ddiwedd pob dydd.

Cynigiwyd cyfle i bawb a gymerodd ran hefyd ddod â stondin arddangos, i ddangos gwybodaeth am eu prosiectau Cymorth. Dangoswyd y stondinau arddangos dros ddau ddiwrnod y gynhadledd, gyda chyfle i ymweld â'r stondinau yn rhan o ddiwrnod cyntaf y gynhadledd. Bu'r arddangosfa yn gyfle rhagorol i rwydweithio a dysgu mwy am waith eraill.

Yn ychwanegol, cynigiodd y gynhadledd gyfleoedd i rwydweithio a gwahoddiad i gymdeithasu dros ginio cynhadledd rhannol ffurfiol.

Rhaglen

Y Diwrnod Cyntaf

9:00am – 10:00am	Cofrestru
10:00am – 10:15am	Datganiad Agoriadol gan y Cadeirydd
10:15am – 10:35am	Jane Hutt, AC a Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
10:35am – 12:30pm	Gweithdai
12:30pm – 1:30pm	Cinio
1:30pm – 2:00pm	Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru
2:00pm – 4:00pm	Gweithdai
4:00pm – 4:30pm	Adolygu'r diwrnod a sylwadau cloi
4:30pm ymlaen	Cyfle i weld y stondinau arddangos
7:00pm ymlaen	Cinio'r Gynhadledd gyda'r siaradwr gwadd Marc Phillips, Cydlynydd Cenedlaethol, Plant yng Nghymru

Ail Ddiwrnod

8:45am – 9:00am	Cofrestru
9:00am - 11:00am	Gweithdai
11:00am – 11:30am	Egwyl am Goffi
11:30am – 1:00pm	Gweithdai
1:00pm – 2:00pm	Cinio
2:00pm – 2:05pm	Croeso gan y Cadeirydd Sioned Bowen, Cyfarwyddydd Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Ddinbych
2:05pm – 2:20pm	Jane Davidson, AC a Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes
2:20pm – 2:30pm	Cwestiynau i'r Gweinidog
2:30pm – 2.45pm	Sylwadau terfynol a chloi

Araith gan Jane Hutt, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rwyf yn falch iawn o fedru ymuno â chi heddiw yng Nghynhadledd Cymorth ar Waith. Hoffwn ddiolch i Blant yng Nghymru am gytuno i drefnu'r digwyddiad hwn i ni.

Aeth bron i 18 mis heibio erbyn hyn ers i Cymorth gael ei lansio ac rydym wedi teithio'n bell iawn yn yr amser hwnnw. Wrth sefydlu Cymorth fe wnaethom dynnu at ei gilydd amrywiaeth o raglenni gwahanol ond cysylltiedig - Cychwyn Cadarn; Cronfa Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc; Chwarae; y Fenter Mynediad i'r Ifanc a'r Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol. Yn naturiol bu cyfnod o addasu a newid. Ni fu'r newidiadau'n hawdd eu rheoli bob amser ac rwyf yn ymwybodol bod rhai partneriaethau lleol wedi gorfod gwneud penderfyniadau a dewisiadau anodd. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd sylweddol ac mae tystiolaeth glir o hynny yma heddiw.

Mae Cymorth yn cefnogi mwy na 900 o brosiectau i blant a theuluoedd ledled Cymru. Gwelwyd gwaith cyffrous a blaengar iawn. Mae rhai o'r rhain yn cael eu harddangos yn y sesiynau gweithdy dros y ddau ddiwrnod nesaf. Mae'r prosiectau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau a chyfleoedd oes plant a phobl ifanc yng Nghymru ac maent yn darparu cefnogaeth hanfodol i'w teuluoedd.

Rwy'n ymwybodol iawn na fyddai Cymorth yn ddim o gwbl heb bawb ohonoch chi sy'n gweithio mor galed i'w ddarparu a'i wneud yn ffaith. Rwy'n siŵr eich bod yn falch iawn o'r hyn yr ydych yn ei gyflawni a'r gwahaniaeth yr ydych yn ei wneud. Er mwyn taenu'r neges yn ehangach rydym yn mynd i gyhoeddi adroddiad blynyddol Cymorth i Gymru gyfan am y tro cyntaf dros y misoedd nesaf. Bydd yn tynnu sylw at lwyddiannau grant Cymorth yn ei flwyddyn gyntaf ac yn eu dathlu ac ar yr un pryd yn cydnabod rhai o'r sialensiau sy'n wynebu'r cynllun.

Yn ehangach, rydym yn gweld cynnydd o ran pob un o themâu Cymorth, a byddaf yn awr yn trafod pob un o'r themâu hyn yn eu tro.

Cefnogaeth i Deuluoedd - Rhianta

Dan y thema Cefnogaeth i Deuluoedd, rydych yn cyflawni gwaith gwerthfawr yn y partneriaethau i sicrhau fod gan deuluoedd fynediad at gefnogaeth a fydd yn meithrin perthynas bositif rhwng rhieni a phlant. Mae prosiectau ledled Cymru yn darparu cefnogaeth i rieni trwy raglenni rhianta, grwpiau mam a'i phlentyn, a mentrau fel sachau stori, gan helpu i ddarparu sgiliau, offer a chefnogaeth holl bwysig gan gymheiriaid.

Rydych wedi trefnu fforymau rhieni i ymgynghori â rhieni a'u denu i siapio ystod eang o gynlluniau darparu gwasanaeth a fydd yn cael effaith ar blant a phobl ifanc. Mae rhieni'n cael cefnogaeth a grym i gymryd rhan mewn gwasanaethau cynllunio sy'n cael effaith ar blant a phobl ifanc yn eu hardaloedd.

Mae hyrwyddo rhianta positif hefyd yn allweddol i safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ar gosbi plant yn gorfforol. Teimlaf fod gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i arwain y farn gyhoeddus ar y mater o fodelau addas o riantu a disgyblu plant. Cymerodd Llywodraeth y Cynulliad safbwynt clir ar hyn. Credwn yn gadarn nad yw taro yn ffordd dderbyniol o ddisgyblu plant.

Mae'n bwysig hefyd gweithio gyda phlant a phobl ifanc eu hunain, i godi eu hymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth iddynt fel rhieni'r dyfodol. Un o amcanion y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yng Nghymru yw helpu disgyblion i fwynhau perthynas lwyddiannus gyda'u teuluoedd ac i ddatblygu sgiliau rhianta effeithiol.

Ond, rydym am adolygu a ydym yn gwneud popeth a allwn ar yr agenda rhianta. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi bod yn trafod beth yw'r ffordd orau i symud hyn ymlaen gyda Phlant yng Nghymru ac eraill. Rydym wedi cytuno i weithio gyda Phlant yng Nghymru, a'u fforwm rhianta ("Fforwm Magu Plant") i gynhyrchu Cynllun Gweithredu a fydd yn dynodi'r blaenoriaethau a'r camau allweddol – man cychwyn ar gyfer rhagor o waith yn y maes hwn.

Mae oblygiadau ar gyfer rhianta mewn sawl maes y mae'r Cynulliad yn gweithredu ynddynt, o hyrwyddo iechyd i addysg, adfywio cymunedol, tlodi plant, cyfiawnder ieuenctid a gofal cymdeithasol. Bydd rhoi rhagor o sylw i'r elfen rhianta, a rhoi mwy o bwyslais arno yn rhan bwysig o'n Cynllun Gweithredu. Bydd darganfod bylchau yn un arall. Rydym wedi tynnu Gweithgor bychan at ei gilydd i'n helpu i lunio'r Cynllun Gweithredu. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Blant yng Nghymru a swyddogion Cyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd Llywodraeth y Cynulliad. Rydym hefyd wedi ceisio sefydlu rhwydwaith ehangach o bobl a all gyfrannu at ddatblygiad y gwaith hwn, gan roi sylwadau ar y Cynllun Gweithredu fel y mae'n cael ei baratoi a chyfrannu eu cyngor a'u harbenigedd ar sail *ad hoc*.

Mae addewid y bydd y gwaith hwn yn ddarn cyffrous o waith, a gobeithiaf fedru lansio'r Cynllun Gweithredu yn Ionawr 2005.

<u>Hybu Iechyd</u>
Hoffwn droi at hybu iechyd yn awr. Mae arferion iach yn cael eu sefydlu yn ifanc iawn felly bydd ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn ganolog i greu Cymru iachach.

Dan y thema Hybu Iechyd mae Cymorth yn anelu at hybu datblygiad iach plant a phobl ifanc trwy ddarparu cefnogaeth iechyd cymuned fwy dwys neu chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cyrraedd y gwasanaethau iechyd prif-ffrwd. Mae eich gwaith canmoladwy yn y maes hwn yn cynnwys maes eang iawn. Mae'n mynd yr holl ffordd o gefnogaeth i iechyd cegau plant ifanc i brosiectau sy'n helpu i leddfu effeithiau camddefnyddio sylweddau, yn arbennig i'r teuluoedd hynny sydd anoddaf eu cyrraedd â'r anghenion mwyaf dwys. Gellir gweld enghreifftiau o'r gwaith da yn y maes hwn yn y gweithdy bore fory.

Ond, er mwyn gwireddu'r gwelliannau yr ydym oll am eu gweld, rhaid i ni roi ymdrechion yr holl unigolion a chyrff yng Nghymru ar waith. Yn ddiweddar fe wnes i gyhoeddi Her Iechyd Cymru, y ffocws cenedlaethol newydd i wella iechyd yng Nghymru. Cynlluniwyd hwn i gryfhau'r gweithredu cyfredol ac ysgogi gweithredu o'r newydd i greu cenedl iachach.

Mae gwaith gwerthfawr yn cael ei wneud yn y maes hwn o hybu iechyd. Gwaith sy'n cynnwys datblygu rhwydwaith o gynlluniau ysgolion iach, sydd â dros 900 o ysgolion yn ymwneud ag o erbyn hyn. Mae'r cynlluniau'n cynnwys Siopau Ffrwythau, peiriannau oeri dŵr a pheiriannau gwerthu iach.

Nodwyd bod atal ysmygu ymhlith pobl ifanc yn flaenoriaeth. Mae nifer o bobl ifanc yn arbrofi gydag ysmygu gan gredu y byddant yn medru stopio pan fyddant yn dewis. Ond mae ysmygu'n gaethiwus iawn ac mae llawer iawn yn gweld nad ydynt yn medru stopio. Mae 11,000 o ysgolion cynradd yn cymryd rhan yn ein rhaglen gydlyn o atal ysmygu ar hyn o bryd yn ein Clwb Smokebugs; a bu 13,000 o ddisgyblion ysgol uwchradd yn cystadlu yn ein cystadleuaeth Dosbarth Di-fwg. Datblygwyd adnoddau hefyd i'w defnyddio yn y dosbarth i atgyfnerthu'r neges o atal ysmygu.

Er mwyn ymateb i Her Iechyd Cymru fe wnes i sefydlu gweithgor Bwyd a Ffitrwydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Bydd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaeth Mamolaeth (FfGC) yn gosod safonau i wella safon a chydraddoldeb gwasanaethau a dderbynnir gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Byddaf yn lansio'r ymgynghoriad 3 mis ar y ddogfen hon y mis nesaf a dylai'r safonau terfynol gael eu cyhoeddi yn ystod yr haf y flwyddyn nesaf. Mae cwmpas yr FfGC yn eang gan ei fod yn ymdrin â phlant a phobl ifanc o'r cyfnod cyn eu cenhedlu hyd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed a thu hwnt i'r cyfnod hwnnw i'r rhai hynny y mae arnynt angen cefnogaeth barhaus mewn gwasanaethau oedolion. Mae'r safonau'n berthnasol, nid yn unig i wasanaethau a ddarperir gan y GIG a gwasanaethau cymdeithasol, ond hefyd gwasanaethau awdurdod lleol eraill sydd yn cael dylanwad cryf ar iechyd a lles plant, fel addysg, tai a hamdden yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir gan y sector gwirfoddol.

Gall anfantais gymdeithasol yn ystod plentyndod arwain at anghyfartaledd iechyd, a all ddylanwadu ar ffactorau risg afiechyd i oedolion. Felly mae olyniaeth barhaus o ddiffyg iechyd sy'n crynhoi dros ddegawdau. Er mwyn torri'r cylch hwn rhaid i ni dargedu'r ifanc iawn, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Mae gan yr FfGC Plant safon ar Hybu Iechyd a Lles sydd â chamau allweddol a gynlluniwyd i ymdrin â'r materion hyn, rhai ohonynt yn mynd i gael eu darparu trwy Cymorth.

Cynhelir tri gweithdy rhanbarthol yn ystod mis Tachwedd, a fydd yn cynnig cyfle i gynllunwyr gwasanaethau a'u darparwyr roi eu sylwadau ar y safonau. Rwyf yn eich annog i gyd i gymryd rhan yn y broses ymgynghori fel ein bod yn medru sicrhau, pan fydd y safonau terfynol yn cael eu cyhoeddi'r flwyddyn nesaf, y byddant yn cael yr effaith fwyaf posibl ar wella iechyd a lles plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

<u>Chwarae, hamdden a chyfoethogi</u>
Hoffwn yn awr gymryd y cyfle hwn i roi'r newyddion diweddaraf i chi am y datblygiadau sydd wedi digwydd o ran chwarae.

Yn Hydref 2002 fe wnes gyhoeddi bod Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei gyhoeddi. Roedd hwn yn waith arloesol, gan mai ni oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddatblygu polisi o'r fath, sy'n cydnabod bod chwarae yn hanfodol i fywyd plentyn ac os cânt eu hamddifadu o hyn y bydd yn difrodi eu datblygiad personol.

Fe sefydlais y Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae i symud y strategaeth hon ymlaen. Bu eu rôl yn hanfodol i osod gweledigaeth glir ar gyfer sut y gellir gweithredu'r polisi i roi'r cyfleoedd gorau posibl i blant a phobl ifanc Cymru.

Cyflwynodd y grŵp eu hargymhellion ym mis Mawrth a bydd y rhain yn fuan yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Pan fyddwn yn lansio'r ymgynghoriad, byddaf yn nodi'r camau cyntaf y gall Llywodraeth y Cynulliad eu cefnogi. Rwyf yn bwriadu cael strategaeth Llywodraeth y Cynulliad yn ei lle erbyn y gwanwyn. Trwy'r strategaeth gallwn gael effaith ar fywydau plant, gallwn hyrwyddo eu datblygiad, eu dysg, eu creadigrwydd a'u hannibyniaeth.

Rwy'n gwybod, cyn ein cynllun gweithredu ni, bod Cymorth wedi bod yn buddsoddi'n gryf mewn chwarae – ac roedd paratoi ar gyfer yr elfen chwarae mynediad agored mewn canolfannau integredig yn rhan bwysig o'r gwaith. Bu'n sialens mewn rhai mannau i droi'r elfen honno o ganolfannau integredig yn ffaith ond rwy'n siŵr y bydd yn cynnig hwb sylweddol i ddarpariaeth chwarae o ansawdd uchel, a gwneud gwahaniaeth pwysig i fywydau pobl ifanc mewn cymunedau ar draws y wlad.

Ymrymuso, cyfranogiad a dinasyddiaeth weithredol

Mae Cymorth hefyd yn buddsoddi mewn annog cyfranogiad ac ymrymuso plant a phobl ifanc. Rwyf yn siŵr y bydd gan Jane Davidson ragor i'w ddweud am hyn yfory. Byddwn yn pwysleisio am nawr bod dull Llywodraeth y Cynulliad o ymdrin â cholli diddordeb yn seiliedig ar gynhwysedd cymdeithasol nid allgauedd cymdeithasol. Rydym am i'r bobl ifanc yng Nghymru chwarae rhan weithredol yn ein cymdeithas. Rhaid i blant a phobl ifanc gael eu trin â pharch a sicrhau bod eu barn yn cael gwrandawiad a'n bod yn gweithredu arni.

Yn eich partneriaethau rydych yn creu deialog gyda phlant a phobl ifanc i siapio'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn llawer o fforymau ieuenctid yn galonogol. Nid yn unig rydych yn cael pobl ifanc o gymunedau sydd mewn angen i gymryd rhan, ond rydych hefyd yn cynnig sgiliau gwerthfawr iawn i bobl ifanc ar gyfer eu dyfodol, gan roi perchenogaeth iddynt ar eu cymuned.

Hyfforddiant, mentora a gwybodaeth

Maes arall lle mae Cymorth wedi cael effaith positif ar fywydau pobl ifanc yw dan thema Cymorth o Hyfforddiant, Mentora a Gwybodaeth. Mae Cymorth yn adeiladu ar waith blaenorol y Fenter Mynediad i'r Ifanc, gan ymestyn allan at blant a phobl ifanc ac ail ennyn diddordeb y rhai sydd mewn perygl o droi cefn ar hyfforddiant, addysg neu gyflogaeth neu wedi gwneud hynny.

Mewn rhai ardaloedd mae gwirfoddolwyr yn gweithio gyda phobl ifanc i lunio perthynas o ymddiriedaeth a fwriadwyd i godi hyder a hunan hyder a newid patrymau ymddygiad blaenorol. Mae gwirfoddolwyr yn cefnogi pobl ifanc i sefydlu a chyrraedd eu nod mewn bywyd. Gall y rhain gynnwys nodau fel ail ymuno ag addysg neu ymwneud â gweithgareddau neu grwpiau cymheiriaid newydd. Mae rhaglenni addysgol gwahanol hefyd yn cael eu hariannu ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hallgau.

Mae ar Bobl Ifanc hefyd angen gwybodaeth ar adegau anodd yn eu bywydau, yn arbennig wrth droi'n oedolion. Mae siopau gwybodaeth a chanolfannau galw i mewn yn fannau y mae pobl ifanc yn adnabod fel rhai a all gynnig gwybodaeth ddiduedd i ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, i addysg bellach a swyddi efallai.

Mae'r holl weithgareddau hyn yn dod o fewn fframwaith Cymorth o ymyrryd yn gynnar gyda phlant a phobl ifanc i gynnig y cyfleoedd gorau iddynt i'r dyfodol.

Gofal Plant

I gloi, yn olaf ond nid yn lleiaf y mae thema gofal plant Cymorth. Rydym yn dyblu ein hymdrechion i symud yr agenda gofal plant ymlaen. Dan gadeiryddiaeth Brian Gibbons AC, Dirprwy Weinidog Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, mae'r Gweithgor Gofal Plant a sefydlwyd yn gynharach eleni, wedi cymryd golwg o'r newydd ar ofal plant yng Nghymru. Rydym yn ymgynghori ar Adroddiad Interim y Grŵp hyd ddiwedd y mis hwn a byddwn yn annog pawb sydd â diddordeb, i gymryd y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, i adeiladu ar y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan y Grŵp. Bydd yr ymatebion o gymorth i ddatblygu adroddiad terfynol y Grŵp, sydd i ddod allan ar ddiwedd y flwyddyn.

Rwyf eisoes wedi cyfeirio at ganolfannau integredig, a'n targed i greu o leiaf un ganolfan blant integredig yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Rydym yn falch o fod yn gweithio ar y bartneriaeth hon gyda Chronfa Fawr y Loteri, sydd wedi neilltuo £11 miliwn tuag at gostau cyfalaf adeiladu'r canolfannau hyn. Bwriadwyd yr arian hwn i gyd-fynd ag arian y Cynulliad dan Cymorth ac Addysg Blynyddoedd Cynnar. Mae datblygiad y canolfannau hyn yn cynnig cyfle cyffrous i ddwyn gwasanaethau at ei gilydd, fel Cychwyn Cadarn, addysg gynnar, gofal plant, chwarae, hyfforddiant, cefnogaeth i deuluoedd ac iechyd yn rhwydwaith o wasanaethau integredig. Bydd y canolfannau hyn yn helpu rhieni i gefnogi datblygiad cyfan eu plant a rhoi cyfle i rieni wella eu gwybodaeth, sgiliau a'u dealltwriaeth. Rwyf yn falch o ddweud bod y ganolfan gyntaf a ariannwyd gan y Loteri wedi ei hagor ar 7 Medi yng Nghaerffili, gyda'r lansiad swyddogol y mis nesaf.

Rwyf wedi trin ystod eang o faterion, gan adlewyrchu'r amrediad mawr o weithgaredd Cymorth. Hoffwn eto fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi am y gwaith caled a'r ymroddiad yr ydych wedi ei ddangos i wneud Cymorth yn llwyddiant. A hoffwn ddymuno pob llwyddiant i chi gyda'r digwyddiad hwn dros y ddau ddiwrnod nesaf.

Araith gan Jayne Davidson, Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r gynhadledd hon wedi rhoi cyfle i ni gael golwg gyffredinol ar ein llwyddiant hyd yn hyn, i weld ble'r ydym ni nawr ac edrych ymhellach i lawr y ffordd faith sydd o'n blaenau.

Mae hanes diweddar polisi plant a phobl ifanc yng Nghymru yn un sy'n llawn o fentrau newydd ac mae'r awydd i barhau'r momentwm hwnnw yn golygu nad ydym yn aml yn edrych ar ba mor bell yr ydym wedi teithio. Heddiw, fe hoffwn gymryd ychydig funudau i wneud hynny.

Llwyddiannau'r Partneriaethau Pobl Ifanc (PPI)

Yn ystod eu datblygiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cylch gorchwyl y Partneriaethau oedd cynllunio a darparu gwasanaethau cefnogi pobl ifanc i'r rhai rhwng 11 a 25 mlwydd oed yn y fframwaith o ddeng hawl. Wedi ei gynllunio i weithio mewn cytgord â saith nod craidd Partneriaeth Fframwaith Pobl Ifanc a themâu Cymorth, mae'r deg hawl yn gwneud yn siŵr bob pob person ifanc yn cael mynediad at y gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu potensial yn llawn.

Yn y strwythur hwn, mae'r PPI i gyd erbyn hyn wedi:

- Dynodi pa wasanaethau i bobl ifanc sydd ar gael ar hyn o bryd a darganfod ble mae'r bylchau;
- Cynllunio cyfleoedd hyfforddi ar y cyd i'r staff;
- Ehangu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael i bobl ifanc wedi'r ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol;
- Gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu strategaethau tymor hir pum mlynedd; a
- Datblygu strwythurau cyfranogiad newydd a chyffrous i gael pobl ifanc i gymryd rhan yn eu gwaith.

Yn ychwanegol, maent wedi datblygu systemau i sicrhau cyfraniad sector ieuenctid gwirfoddol amrywiol. Gwnaed Grant Arbennig unwaith ac am byth o £20 mil ar gael yn 2003-04 i helpu i sicrhau bod y sector ieuenctid gwirfoddol – elfen allweddol wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc – yn medru cymryd rhan fel partner cyfartal yng ngweithgareddau'r PPI.

Gwnaeth y PPI waith mawr hefyd yn gosod gwasanaethau newydd, blaengar ac aml-asiantaethol yn eu lle yn ychwanegol at deilwrio'r gwasanaethau sy'n bodoli i'r deg hawl. Rwy'n siŵr eich bod wedi dysgu am enghreifftiau o'r datblygiadau cyffrous hyn yn ystod y gynhadledd ond hoffwn grybwyll ychydig mwy ohonynt, rhai a ddigwyddodd trwy arian Cymorth ac eraill sy'n dibynnu ar ffynonellau eraill.

Yma ym Mhowys, cyfrannodd aelodau'r PPI adnoddau o'r Bwrdd Iechyd Lleol, y Gwasanaeth Ieuenctid a Cymorth i ariannu'r SS Enterprise a Gwasanaeth Gwybodaeth Ieuenctid. Mae'r ddau wasanaeth yma'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cyngor ar ryw diogel i bobl ifanc, yn y fan lle mae arnynt ei angen, yn eu cymunedau eu hunain;

Mae Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr – gyda chefnogaeth Gweithiwr Cefnogi Cyfranogiad amser llawn, a ariennir trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid – yn cynnal rhaglen amrywiol o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys: profi gwasanaethau fel

cleientiaid “anhysbys”; cynghori’r PPI, gwaith allestyn; hyfforddiant; ymgynghoriadau a chynrychiolaeth ar y Ddraig Ffynci. Mae arian Cymorth wedi galluogi’r Cyngor Ieuenctid i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Gyfranogiad.

Yn Sir y Fflint, mae’r PPI wedi cael mynediad at arian Loteri Fawr a chyfraniadau mewn da gan aelodau’r bartneriaeth i ddatblygu Rhaglen Arweinwyr Ifanc flaengar. Mae’r rhaglen hon yn dynodi’r bobl ifanc sydd mewn perygl o golli diddordeb ac sy’n dangos nodweddion arwain eraill ac yna’n cynnig rhaglen hyblyg wedi ei theilwrio o gyfleoedd i wneud y mwyaf o’u gallu i arwain a’u harwain at weithgareddau positif.

Bu Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro ac 17 Fforwm Ieuenctid yn allweddol i sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei chlywed ar nifer o faterion ac maent wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu adnoddau o’r tu mewn a’r tu allan i’r PPI.

Ail-ymweld ag Ymestyn Hawliau

Mae’r enghreifftiau hyn yn dangos yn glir pa mor ymatebol yw’r PPI i anghenion pobl ifanc a’u sgiliau wrth gyfuno adnoddau newydd a chyfredol i gynnig gwasanaethau sy’n bodloni anghenion pobl ifanc.

Mae hyn yn cyd-fynd ag ethos gwreiddiol Ymestyn Hawl – y byddai cefnogaeth i bobl ifanc yn cael ei gyflawni orau gan rwydwaith o wasanaethau gan gynnwys:

- Addysg a hyfforddiant;
- Gwaith ieuenctid awdurdodau lleol;
- Y sector ieuenctid gwirfoddol amrywiol iawn;
- Cyfleoedd celf, chwaraeon a hamdden; a
- Darpariaeth arbenigol, er enghraifft i bobl ifanc ddigartref a throseddwyr ifanc.

Yn fyr, hawl cyffredinol i ystod o wasanaethau, sy’n hygyrch i bobl ifanc i gyd, ar lefel sy’n addas i’w anghenion, pan fydd arnynt ei angen. Hawl cyffredinol, sy’n cydnabod ar ryw bwynt yn eu bywydau, y bydd ar rai pobl ifanc, efallai, angen y cyfraniad arbenigol a gynigir gan wasanaethau wedi eu targedu.

Yr allwedd i weithio’n llwyddiannus mewn partneriaeth

Rhaid cyfaddef nad yw’r gwaith hwn o rwydweithio darpariaeth gyffredinol ac wedi ei thargedu yn hawdd i’w gyflawni’n ymarferol. Mae gweinyddu partneriaeth yn gofyn am amynedd a dealltwriaeth. Ond yn bwysicaf oll, mae’r parodrwydd i ildio ymreolaeth drefniadol a dilyn dull cydweithredol o gynllunio gwasanaethau - i sicrhau bod y gwasanaethau hynny’n gweddu orau - yn hanfodol. Mae’r gronfa Cymorth yn elfen allweddol o’r dull hwn, fel y mae ffynonellau arian eraill. Ond mae hanfod partneriaeth yn golygu bod rhaid i ni hefyd gynllunio ein gwasanaethau a gweithio gyda’n gilydd - y tu allan i unrhyw amserlen gynllunio ac ariannu allanol - i adeiladu ar ein hymdeimlad o gymuned ac o rannu mewn nod cyffredin. Dyma’r sialens i sicrhau parhad a llwyddiant y strwythur partneriaeth yn y dyfodol.

Trwy gydol 2004-05 mae aelodau PPI yn dangos y dull hwn trwy weithio gyda’i gilydd i adeiladu ar yr ymdeimlad hwnnw o nod a rennir trwy rai darnau pwysig o waith. Mae’r Cynulliad wedi sicrhau bod £30,000 ar gael i bob PPI i’w cefnogi wrth iddynt symud prosiectau aml-asiantaeth penodol ymlaen, sef:

- hyrwyddo ffyrdd blaengar o ddiwallu anghenion pobl ifanc o ran gwybodaeth am iechyd rhyw a gwasanaethau a/neu
- ymdrin â rhai bylchau mewn trafnidiaeth fel bod pobl ifanc yn medru cyrraedd y cyfleusterau y mae arnynt angen eu defnyddio;

- symud y trefniadau ymlaen i bobl ifanc wneud mwy o gyfraniad at waith y PPI.

Rydym hefyd wedi gofyn i Bartneriaethau ddatblygu ar y cyd

- brotocolau ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu colli o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth; a
- phrotocolau Rhannu Gwybodaeth er mwyn cytuno sut y bydd aelodau sy'n bartneriaid, os bydd angen hynny, yn rhannu gwybodaeth am y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw, os oes gan y person ifanc hwnnw anghenion niferus.

Mae'r darnau hyn o waith yn rhai hanfodol bwysig a byddant yn cael effaith barhaol ar fywydau pobl ifanc.

Rhwydweithiau Llwybrau Dysgu 14 -19

Mae ein cred yn yr ethos o bartneriaeth mor gryf fel ein bod wedi ehangu'r dull hwn o weithredu i gynnig rhagor o ddewis a chyfle i bobl ifanc yn eu profiadau dysgu.

Ddydd Llun bûm yn lansio'r cyfarwyddyd ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 ym Mangor. Bydd Llwybrau Dysgu yn gweddnewid dewisiadau a chyfleoedd pobl ifanc. Byddant yn gwneud hynny trwy ymestyn dewis a hyblygrwydd; sicrhau llwybrau dysgu wedi eu teilwrio'n unigol sy'n bodloni anghenion y dysgwyr, a darparu cyfleoedd cyfoethocach a phrofiadau a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ehangach y bydd arnynt eu hangen ar gyfer eu bywyd a'u gwaith. Byddant yn rhoi ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth o 'Sgiliau Dyfodol Cymru' am yr hyn sy'n ofynnol i ddysgwyr ar gyfer bod yn gyflogadwy, yn ogystal â'r hyn y bydd arnynt ei angen i fyw bywydau llwyddiannus fydd yn rhoi boddhad.

Bydd y cyfuniad unigryw o gefnogaeth - a fydd yn cael ei sefydlu trwy rwydweithiau 14-19 yn ardal pob awdurdod lleol - yn sicrhau y bydd pob dysgwr yn cael y cyngor a'r arweiniad y mae arnynt eu hangen i wneud dewisiadau da ac i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu. Bydd yn eu galluogi i werthfawrogi bod eu hiechyd corfforol, cymdeithasol ac emosiynol yr un mor hanfodol i wireddu eu potensial ag y mae eu datblygiad deallusol.

Yn 2004-05 rydym wedi sicrhau bod £50K ar gael ar gyfer pob rhwydwaith er mwyn cefnogi eu partneriaethau sy'n datblygu. Rydym hefyd wedi buddsoddi £140K ar gyfer 10 prosiect treialu Hyfforddwr Dysgu a Chefnogi Personol. Byddwn yn dosbarthu £100k i ymgeiswyr llwyddiannus yn fuan i wneud gwaith treialu ar weithgareddau Dysgu wedi ei Ganoli ar Waith a Chyfranogiad Cymunedol.

A bydd y dull o weithredu trwy bartneriaeth yn parhau. Bydd y Grŵp Llywio Trosfwaol yn fy nghynghori ar weithredu, a chanllawiau Llwybrau Dysgu 14-19 yn y dyfodol. Mae'r bobl ifanc eu hunain wedi cael cyfle i wneud eu cyfraniad trwy gydol yr amser. Byddant yn parhau i wneud hynny fel rhan o'r Grŵp Llywio Trosfwaol. Byddant hefyd yn aelodau gwerthfawr o'r Rhwydweithiau 14-19 lleol a sefydlir i weithredu'r cynlluniau datblygu lleol.

Ni fydd gosod gwasanaethau i bobl ifanc yn eu lle yn profi ei werth, waeth pa mor flaengar, newydd neu gyffrous ydyn nhw, oni bai bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn eu datblygiad cychwynnol a pharhaus.

Llwyddiannau mewn Cyfranogiad

Mae strwythurau'r Fframwaith a Cymorth – gan gynnwys un y PPI – yn seiliedig ar egwyddorion cyfranogiad ac ymrymuso. Un o brif themau Cymorth yw Cyfranogiad, Ymrymuso a Dinasyddiaeth. Mae'r PPI eisoes wedi gwneud cryn lawer o waith i sicrhau bod pobl ifanc yn cael rhoi eu barn am wasanaethau a fydd yn effeithio arnynt ac mae hwn yn ddarn o waith a fydd yn parhau i ddatblygu a thyfu ymhell i'r dyfodol. Edrychaf ymlaen at gael clywed enghreifftiau o arferion blaengar yn adroddiadau nesaf y PPI sydd i gyrraedd ym Mawrth 2005.

Rwyf yn credu ein bod ni yng Nghymru ar y blaen o ran cael ein plant a'n pobl ifanc yn rhan o lunio penderfyniadau. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i gyfranogiad yng Nghymru ac rwyf yn falch y byddwn yn gartref i'r Gynhadledd Ieuenctid Ewropeaidd yn hwyr ym mis Hydref 2005 fel rhan o Lywyddiaeth y DG ar yr Undeb Ewropeaidd 2005. Thema'r digwyddiad yw "cydlyniant mewn llunio polisïau ac wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc ledled yr Undeb Ewropeaidd". Rhoddir blaenoriaeth i "gyfranogiad pobl ifanc mewn prosesau llunio polisïau a darparu, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol" a thra nad yw rhoi sylw penodol i brosiectau yn cael ei annog yn y digwyddiadau hyn, rwyf yn argyhoeddedig y bydd gennym lawer iawn o arfer da i'w rannu gyda'n cymdogion Ewropeaidd.

Mae ein strwythurau cyfranogiad – er fy mod yn cydnabod bod gennym ffordd bell i fynd - eisoes ymhlith y rhai gorau yn y byd. Yng Ngorffennaf 2001, fe wnaethom gyhoeddi argymhellion ar gyfer cael ymlyniad pobl ifanc "Symud Ymlaen - Gwrando ar blant a Phobl Ifanc". Ers hynny rydym wedi creu'r Ddraig Ffynci a both o strwythurau lleol a chenedlaethol - gan gynnwys fforymau ieuenctid awdurdodau lleol, cynghorau ysgol cynradd ac uwchradd - y cyfan gyda'r potensial i ddod yn rhwydwaith grymus a llawn gwybodaeth.

Yn Genedlaethol – Draig Ffynci

Bu 2004 yn gyfnod cyffrous i'r Ddraig Ffynci. Maent yn parhau i adeiladu ar lwyddiant y llynedd ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn cynnal ei weithgareddau ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Eleni, maent eisoes wedi dathlu eu pen-blwydd cyntaf. Cynhaliodd y Prif Gyngor – sy'n cynnwys cyfanswm o 60 o bobl ifanc rhwng yr oedran o 11 a 25 o bob rhan o Gymru – gyfarfod arall gyda mi yn Ebrill i drafod nifer o faterion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc. Ym mis Gorffennaf roedd eu Cynhadledd Flynyddol a'u Cyfarfod Blynyddol, yn cael eu trefnu gan y Cynulliad eto a'u cynnal yn Siambr ac ystafelloedd cynadledda'r Cynulliad ym Mae Caerdydd. Bu hyn yn llwyddiant mawr gyda Gweinidogion y Cynulliad a swyddogion yn ymuno yn y gweithdai i drafod y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru a sut y mae'r Cynulliad yn ymdrin â'r pryderon hynny.

Yn Lleol - Fforymau

Yn fwy lleol, mae'r Cynulliad wedi gweld cynnydd gwirioneddol o ran darparu cefnogaeth a chyfleoedd i gyfranogi yn lleol trwy sefydlu fforymau ieuenctid yn ardal pob awdurdod lleol. Mae'r rhain ar gyfnodau gwahanol o ran eu datblygiad ond wrth iddynt aeddfedu byddant yn rhwydwaith o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan ar lefel leol.

Mae rhai fforymau lleol eisoes yn ymwneud â datblygu polisïau lleol a llunio penderfyniadau lleol. Mae gwrando ar blant a phobl ifanc ac ymateb i'w pryderon yn graddol ddatblygu'n fwy cyffredin wrth lunio polisïau lleol ac mewn sefydliadau, er bod llawer iawn o waith i'w wneud.

Cyfranogiad mewn Ysgolion

Fel Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes gennyf fi y mae'r cyfrifoldeb am sicrhau bod polisi'r Cynulliad ar gyfranogiad yn cael ei weithredu'n briodol mewn ysgolion, gan mai disgyblion yw'r budd-ddeiliaid pwysicaf mewn ysgolion ac oherwydd bod eu dyfodol yn cael ei bennu i raddau helaeth iawn gan yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion. Dyna pam y rhoddais ymrwymiad yn y Wlad sy'n Dysgu i sefydlu cynghorau ysgolion ym mhob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru erbyn Gorffennaf 2005.

Ar ddiwedd 2003 bu'r Cynulliad yn ymgynghori ar gynigion i sefydlu cynghorau ysgolion ac ar gael disgyblion i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd cynghorau ysgol yn caniatáu i ddisgyblion drafod unrhyw fater yn ymwneud â rhedeg yr ysgol sydd o ddiddordeb iddynt neu'n peri pryder iddynt ac yn eu galluogi i gyfrannu at benderfyniadau a gymerir ar y materion hynny.

Bydd arweiniad ar sefydlu cynghorau ysgol ac ar gael disgyblion i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn cael eu dosbarthu maes o law.

Cyfuno'r Agenda Cenedlaethol

Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud ar lefel genedlaethol yn fewnol yn Llywodraeth y Cynulliad a gyda chyrff cenedlaethol sy'n bartneriaid i ni i ail ganolbwyntio ein hagendau ar bobl ifanc a'u hanghenion. Rydym wedi gweld peth cynnydd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi sefydlu prosiect cyfranogiad yn ei Hadran Hyfforddiant ac Addysg. Nod y prosiect yw cefnogi cyfranogiad ystod eang o blant a phobl ifanc i lunio penderfyniadau yn y Cynulliad ac mewn sefydliadau allanol. Bydd y prosiect yn adeiladu ar bartneriaethau a grëwyd gydag asiantaethau a sefydliadau ar lefel genedlaethol a lleol fel bod syniadau newydd ac arfer da ynglŷn â chyfranogiad yn cael eu rhannu yng Nghymru.

Mae gennym eisoes Is-bwyllgor Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn Llywodraeth y Cynulliad sy'n cydlynu mentrau, gyda chefnogaeth Grŵp Cydlynu Polisi Plant a Phobl Ifanc - gan ddwyn swyddogion o'r holl feysydd polisi perthnasol at ei gilydd.

Mae grŵp Sefydliadau Pobl Ifanc Cymru Gyfan yn rhwydwaith ymbarél i'r prif gyrff statudol a gwirfoddol, sy'n gweithio gyda phobl ifanc, sydd, ers ei sefydlu ddwy flynedd yn ôl wedi cyfrannu at welliannau o ran cydlynu gweithgareddau a rhannu gwybodaeth. Yn ychwanegol, mae'r Cynulliad yn cydlynu cyfarfod dau ddiwrnod chwarterol i'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc a Chydlynydd y Bartneriaeth Pobl Ifanc i rannu'r datblygiadau diweddaraf a rhoi cyfle i'r Cydlynwyr archwilio eu hagendau eu hunain.

Felly rydym wedi teithio'n bell, Ond mae gennym lawer o ffordd eto. Ond credaf yn gryf fod gennym griw ymroddedig a blaengar o weithwyr yma yng Nghymru a fydd yn sicrhau bod gennym wasanaeth cefnogi ieuenctid na fydd yn ail i'r un. Diolch i chi gall

pobl ifanc fod yn hyderus ein bod yn gweithio tuag at sicrhau bod gwasanaethau o'r safon uchaf ar gael, pan fydd pobl ifanc eu hangen a lle maent eu hangen.

Araith gan Peter Clarke,
Comisiynydd Plant Cymru

Darparodd Peter Clark y nodiadau ar gyfer ei araith a rannodd yn ddwy adran:

1. Rhesymau dros fod yn Llawen
2. Rhesymau dros fod yn Benderfynol

Ym mhob adran ceisiodd Peter edrych ar yr egwyddorion sylfaenol, y cynllunio a'r darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

1. Rhesymau dros fod yn Llawen

   Amlinellodd Peter Clark bod gan Gymru gonsensws gwleidyddol eang am yr ymagwedd sylfaenol at blant. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn beth i'w groesawu'n fawr, ac mae'n ein gwahaniaethu'n ffafriol oddi wrth Loegr.

   Mae'r agweddau positif eraill a ddynodwyd gan Peter yn cynnwys:

   - Gweinidog dros Blant cryf ac ymroddedig
   - Is-bwyllgor Cabinet i blant
   - Strategaeth Blant Genedlaethol
   - Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
   - Ymrwymiad cryf i gyfranogiad
   - Draig Ffynci
   - Fforymau Lleol
   - Ymrwymiad i Gynghorau Ysgol
   - Safiad cryf ar gosb gorfforol
   - Safbwynt rhesymol ar Orchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
   - Ymrwymiad i gefnogaeth rhieni

2. Rhesymau dros fod yn Benderfynol

   Yn ail ran ei araith, dynododd Peter Clark y meysydd lle teimlai bod angen rhagor o waith a lle mae pobl yn parhau i weithio gyda'i gilydd i weld cynnydd.

   Dynododd yr agweddau hyn fel: -

   - Mae nifer o brosiectau da, ond dim digon ohonynt. Mae gennym 'longau sy'n arwain y blaen ond heb lynges ohonynt'.
   - Nid yw pawb yn gwybod am nifer o'r prosiectau da
   - Mae tensiwn rhwng strategaethau da a darparu/ymrwymiad gwael yn lleol. "Beth yw'r gwahaniaeth rhwng blaenoriaethau a bennir yn lleol a loteri cod post?"
   - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion Ifanc 'Busnes Pawb' yn arddangos hyn yn glir – strategaeth dda nad yw wedi cael ei darparu.
   - Mewn llawer maes mae gormod o feddwl a gweithio mewn 'byncyrs'.
   - Nid yw llinynnau cyllid (gan gynnwys Cymorth) yn caniatau ar gyfer cynllunio sicr ac felly nid ydynt yn creu perthynas gadarn rhwng gweithwyr prosiect a phobl ifanc.
   - Mae llawer o bobl ifanc yn awr yn teimlo eu bod yn cael gwrandawiad ond nad ydynt yn cael eu clywed

Manylion gweithdai

Darparwyd yr holl wybodaeth yn yr adran ganlynol gan arweinyddion y gweithdai.

Mae'r manylion cyswllt yn gywir wrth i ni fynd i'r wasg.

Byddai holl arweinwyr y gweithdai'n barod i roi gwybodaeth os cysylltir â nhw'n uniongyrchol.

Prosiect Rhieni i Addysg (Blynyddoedd Cynnar), Gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

1. Cyflwyniad ar Gynllun Dug Caeredin/Prosiect Oasis, gyda phrofiadau pobl ifanc.
2. Cyflwyniad ar Brosiect Rhieni i Addysg Cychwyn Cadarn, gyda phrofiadau rhieni (Cyflwyniad Fideo).
3. Fframwaith Damcaniaethol, gweithio "Mecanistig" yn erbyn "Organig".
4. Tasg Ymarferol – Adeiladu Tŵr gan ddefnyddio:
    - Dull gweithio mecanistig/arddull rheoli
    - Dull gweithio organig/dull arwain
5. Adborth o brofiadau yn ystod y dasg.
6. Cymhwyso'r sesiwn hon i weithio mewn Partneriaeth – casglu barn a phrofiadau'r rhai a gymerodd ran.

Cynllun Dug Caeredin/Prosiect Oasis

Mae'r Wobr wedi bod yn rhedeg yn Ysgolion Uwchradd Blaenau Gwen am tua thair blynedd ac yn ystod yr amser hwnnw gwelwyd 300 o Wobrau'n cael eu rhoi ar lefelau amrywiol. Ar hyn o bryd mae tua 100 o ddisgyblion wedi cofrestru am y Wobr. Mae llwyddiant y datblygiad hwn a hyrwyddo'r Wobr yn deillio o agwedd bositif y Prifathrawon, athrawon a staff cefnogi, fel staff gweinyddol a Gweithwyr Ieuenctid mewn ysgolion.

Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn yr ysgolion yn cefnogi'r myfyrwyr hynny sy'n cael eu hystyried mewn perygl o 'golli diddordeb' ac sy'n creu anawsterau wrth gynnal eu diddordeb mewn addysg prif-ffrwd, sy'n aml yn arwain at allgauedd cymdeithasol ac anallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'r ysgol. Mae hyn yn llwyddiant mawr ac yn un o'r enghreifftiau gorau o'r modd y gall y Wobr gefnogi ailintegreiddio i addysg prif-ffrwd gan fod y bobl ifanc hyn yn cael eu hystyried yn rhai o gyrhaeddiad isel ac mewn perygl o gael eu hallgau.

Cynhelir noson wobrwyo urddasol unwaith y flwyddyn lle bydd yr holl gyfranogwyr yn derbyn eu bathodynnau a'u tystysgrifau yn y Seremoni Wobrwyo, yn 2002 rhoddwyd y Wobr Efydd i nifer o bobl ifanc nad oedd erioed wedi cael eu cydnabod am eu cyfraniad i'r ysgol, heblaw am beidio mynychu ac ymddygiad negyddol.

Argymhellion/syniadau neu awgrymiadau ar sut y gall y broses esblygu i hwyluso gweithio organig mewn fframwaith caeth.

- Mae Cymru yn llawn amrywiaeth, ac felly mae arni angen yr un faint o ffyrdd o ddatrys problemau, dathlu a derbyn atebion gwahanol a buddsoddi mewn atebion tymor hir.
- Llai o waith papur gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), ond gwybodaeth fwy cryno yn y gwaith papur "llai" fyddai'n cael ei ddosbarthu.
- Yn ogystal ag arweiniad dylai LlCC ddosbarthu mwy o "amcanion". Mae'r fframwaith presennol yn caniatau ar gyfer gormod o ddehongli ar gyfarwyddyd LlCC.
- Realaeth – amser i bartneriaethau ddatblygu.
- Newid - hyblygrwydd – ond dim safbwynt.
- Amserlenni'n cael eu trafod rhwng LlCC a'r Swyddogion Cynllunio.
- Edrych ar y fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid - "angen" nid "poblogaeth".
- Cynllunio llai ar sail flynyddol - mwy yn y tymor hir.

- Cydnabod bod datblygu'n cymryd amser
- Dynodi'n gliriach yr allbynnau/deilliannau a ddisgwylir a sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur.
- Llai o gyfarwyddo, targedau mwy hyblyg, hyblygrwydd o ran cyllido.
- Amserlenni realistig
- Systemau monitro a chasglu data cyffredin – gyda chytundeb ar draws Cymru,
- Cynllunio – canllawiau cliriach
- Cydnabod arfer da sy'n bodoli'n barod.
- Rhagor o amser i alluogi gweithio effeithiol
- Mwy o ymgynghori yn y broses
- Canllawiau mwy penodol.
- Gwrando ar reswm
- Mwy o gydraddoldeb mewn partneriaeth
- Cyfathrebu
- Rhoi'r hyn y mae pobl ei eisiau iddynt – nid yr hyn yr ydych chi eisiau ei roi!
- Gwrando ar bobl sy'n gwybod.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Stephen Dines, Swyddog Monitro a Gwerthuso, CBS Blaenau Gwent, Dysgu Gydol Oes, Festival House, Glyn Ebwy, NP23 6ER

Cynlluniau Chwarae - Dynodi ac Ymyrraeth Gynnar mewn Lleoliadau Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar Cyflwynwyd gan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Defnyddio Cynlluniau Chwarae i gynyddu sgiliau, gwybodaeth a hyder gweithwyr gofal plant mewn lleoliadau lle mae plant sydd wedi eu dynodi fel rhai sy'n datblygu'n hwyr. Roedd y cyflwyniad hefyd yn archwilio dulliau gwahanol o weithio mewn partneriaeth â rhieni.

Gweithdy a) Enghreifftiau o arfer da; Cymorth a gwasanaethau prif-ffrwd a ariennir sy'n cynnig trosglwyddo diwnïad

Gweithgaredd a ariennir gan Cymorth	Gweithgaredd a ariennir gan y brif-ffrwd	Gwerth ychwanegol/manteision cleientiaid
Rhieni i Addysg: Ystod o gyrsiau hyfforddi gan arwain at achredu (OCN, TGAU, ac ati).	Gwasanaethau Addysg Gymunedol Oedolion	Mwy o hyder a hunan hyder (rhieni a phlant) Lleihau'r angen am wasanaethau ymyrryd prif-ffrwd, e.e. Nyrsio Seiciatrig yn y Gymuned
Pyramid Trust: yn targedu rhai 7 ac 8 oed gyda sgiliau cymdeithasol gwan, rhwydweithiau cymdeithasol cyfyngedig; yn defnyddio "Amser Cylchynol" fel offeryn i gynyddu hyder a hunan hyder	Addysg ac Iechyd	Ymyraeth yn caniatau i blant gael mwy o fantais o'r addysg brif-ffrwd; lleihau'r angen am fewnbwn Iechyd/CAMHS
Ysgolion "Chatterbox" - sesiynau iaith a chwarae i blant cyn oedran ysgol	Addysg ac Iechyd	Llai o angen am wasanaethau Therapi Llefaru ac Iaith; y plant yn fwy parod ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar; gwell sgiliau cyfathrebu
Prosiect Genesis (ar hyn o bryd yn RCT - i'w gyflwyno trwy Gymru yn fuan) Arian Cymorth yn cael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer cais Amcan Un. Gofal plant yn cael ei gynnig i ganiatáu i rieni gael mynediad at hyfforddiant, wedi ei achredu a heb ei achredu i godi hunan hyder, a chynyddu dewisiadau cyflogaeth	Arian prif-ffrwd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol	Rhai rhieni yn awr wedi cofrestru ar gyrsiau ar lefel gradd. Hunan hyder rhieni a phlant Effaith ar dlodi plant

Sylwadau eraill

Efallai ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith Cymorth ar wasanaethau prif-ffrwd (y lefel o atal a welwyd)
Sut y gallwn wneud staff/gweithgareddau a ariennir gan Cymorth yn gatalydd ar gyfer newid neu ehangu gwasanaethau prif-ffrwd, i gymryd y gwaith hwn?
Sut gallwn ni werthuso manteision tymor byr/canolig Cymorth ar brosiectau a gwasanaethau *eraill*?

Gweithdy b): Dynodi'r bylchau rhwng prosiectau Cymorth a phrif-ffrwd, a phrosiectau/gweithgareddau y dylai'r Fframwaith eu creu neu eu gwella i lenwi'r bylchau hyn

Gweithgaredd a ariennir gan Cymorth	Gweithgaredd a ariennir gan y brif-ffrwd	Bwlch yn y gwasanaeth	Prosiect angenrheidiol i ymdrin â'r anghenion
Cyfeirio Anghenion Arbennig – chwarae cyn oedran ysgol	Cefnogaeth ychwanegol mewn Addysg Gynradd	Anghenion nad ydynt yn cael eu trin mewn addysg Gynradd	Rhannu gwybodaeth gyffredin (e.e. Cynlluniau Chwarae Caerffili) Gweithredu ar wybodaeth a gyflenwir Hyfforddiant i weithwyr cyn oedran ysgol Datblygu "Pasbort" plant y gellir ei drosglwyddo rhwng lleoliadau
Rhieni i Addysg (gweler uchod)	Addysg, Iechyd	Dim dilyniant pan fydd rhieni'n gadael y prosiect	Ymestyn y gwasanaeth i sicrhau bod systemau dilyniant/"trosglwyddo" yn cael eu datblygu – i gefnogi cynnydd
Cynllun Help Llaw (lleoedd gyda chymorth i blant ifanc gydag AAA, EBD ac ati)	Tîm Anabledd Gwasanaethau Cymdeithasol	Lleoedd wedi'u cynnal i blant 5 oed gydag AAA Cefnogaeth barhaus i rieni plant gydag AAA, a/neu rieni gydag AAA	Treialu a darparu tystiolaeth o effaith ac effeithlonrwydd
Prosiectau un pwnc e.e. atal	Penderfyniad lefel fframwaith i	A yw hwn yn ddefnydd addas o	

ysmygu, cefnogaeth i fwydo ar y fron,	gomisiynu gwasanaethau o'r fath	arian Cymorth?	
Prosiect Cymorth	Gall y prosiect prif-ffrwd dynnu allan – wrth i brosiect Cymorth "gymryd y pwysau"	A yw hyn yn ddefnydd addas o arian Cymorth?	

Y materion allweddol a godwyd gan hyn oedd:

- A yw Cymorth yn cuddio'r gwir lefel o angen mewn ffordd – yn cadw teuluoedd ychydig dan y trothwyon statudol, heb wneud cynnydd sylweddol i'r teuluoedd hynny, oherwydd bod eu hangen yn rhy gymhleth? Bydd gan hyn oblygiadau mawr i a) Bartneriaid a ariennir gan Cymorth, gan y bydd diffyg deilliannau positif (cyrraedd targedau) yn peryglu eu cyllid yn y dyfodol, a b) cynllunio gwasanaethau statudol gan y gall lefel wirioneddol yr angen gael ei guddio, yn y tymor byr o leiaf.
- Sut y gellir casglu digon o dystiolaeth o effaith gwasanaethau ataliol, yn y tymor byr, i sicrhau bod arian ar gael i gynnal a gwella gwasanaethau o'r fath. Mae perygl y bydd diffyg buddsoddi parhaus mewn gwasanaethau o'r fath yn arwain at alw mawr (na ellir ei reoli) am wasanaethau "ar y pen trwm" yn y tymor canolig. Byddai hyn yn gam yn ôl, gan ei bod yn cael ei chydnabod yn eang nad yw'r ymagwedd "ymladd y tân" hon yn effeithiol, naill ai o ran deilliannau i gleientiaid, nac yn ariannol.

Am ragor o wybodaeth ar y prosiect hwn cysylltwch ag:
Andy Senior, Swyddog Partneriaeth Plant, CBS Caerffili, Swyddfeydd y Cyngor,
Ffordd Caerffili, Ystrad Mynach, Hengoed, Caerffili, CF82 7EP

Cyfle am Newid – Cwricwlwm Amgen

Cyflwynwyd gan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Yn amlinellu'r ymagwedd hyblyg a ddefnyddir gan y rhaglen Mynediad i'r Ifanc yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ail ennyn diddordeb pobl ifanc ym Mlwyddyn 11 mewn addysg a chyfleoedd hyfforddi

Beth yw Cwricwlwm Amgen?

- Yr angen am ddewis Amgen
- Hanes y Prosiect
- Ble mae Mynediad i'r Ifanc yn ffitio?
- Sut y mae pobl yn gweld Mynediad i'r Ifanc

Pwy a Sut?

- Dynodi Myfyrwyr
- Proses Ymgeisio
- Gwneud Penderfyniadau

Amserlen

- **Coleg YM (3 diwrnod)**
  - Gwallt a Harddwch
  - Gofal
  - Peirianneg Fecanyddol
  - Peirianneg Drydanol ac Electronig
  - Bricwaith
  - Gwaith coed
  - T.G/Gweinyddu swyddfa
- **Coleg Cross Keys (3 diwrnod)**
  - Cerbydau
  - Gwallt a Harddwch
  - Gofal
  - Arlwyo/Peirianneg
- Gweithgareddau Awyr Agored (4 diwrnod)
- Canolfan Addysg (1 diwrnod)
- Lleoliad Gwaith (1 diwrnod)

Cynnwys/Achredu

- **Coleg**
  - OCN (Unedau)/NVQ
- **Canolfan Addysg**
  - Saesneg/Mathemateg/TG/Arall lefel mynediad
  - Sgiliau Bywyd OCN
- **Lleoliad Gwaith**
  - Llyfryn Gyrfa Cymru

Dulliau Cyflwyno Eraill

- Porth yr Ifanc
- The Basement
- Y Fyddin
- Weston Spirit
- Cerddoriaeth Gymunedol Cymru
- Fforwm Ieuenctid
- Tîm Troseddwyr Ifanc
- Cynllun Lles Addysg

Pobl Ifanc

- 13 o ysgolion
- 66% gydag anghenion addysgol SA+; 9 Datganiad
- 31 cyfraniad Timau Troseddwyr Ifa



Cefnogaeth Asiantaeth

- Seicolegwyr Addysgol
- Cefnogaeth Ymddygiad
- Swyddog Lles Addysg
- HMS
- Mamau Ifanc
- Cyfarfodydd Ysgolion/Partneriaid
- Y Fyddin

Monitro a Gwerthuso

- ESTYN/CYMORTH
- Presenoldeb
- Ymddygiad
- Hunan Barch
- Llwyddiannau (ac achrediad)
- Cyrchfannau

Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, ac fe ysgogodd drafodaeth gan gydweithwyr o bob rhan o Gymru oedd â diddordeb yn ein Model ar gyfer darparu Cwricwlwm Amgen ac a ysgogodd rai cydweithwyr i gynnig cyfarfodydd yn ddiweddarach i drafod hyn. Y prif faes o ddiddordeb oedd strwythur y broses fonitro yn ogystal â'r elfennau cyllido o'r rhaglen.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, cysylltwch â:
Tim Opie, Rheolydd Mynediad yr Ifanc, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,
Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Caerffili, Ystrad Mynach, Hengoed,
Caerffili CF82 7EP

Prosiectau Cymorth yn ymestyn i ardaloedd gwledig
Cyflwynwyd gan: Cyngor Sir Caerfyrddin, Plant Dewi

Archwiliad o'r ffyrdd y mae Cymorth wedi galluogi cymunedau i ddiwallu anghenion ardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin ar lefel leol yn ymdrin â rhai 0-25 oed ar draws y partneriaethau.

Materion: Rhwystrau

- Cyflogaeth, Incwm a chael deupen ynghyd
- Trafnidiaeth a mynediad at nwyddau a gwasanaethau
- Salwch ac anabledd yn y teulu
- Tai
- Amgylchedd

Sesiwn syniadau

- Costau Trafnidiaeth
- Arwahanrwydd
- Diffyg Gwasanaethau
- Recriwtio staff arbenigol
- Gwasanaethau dwyieithog
- Gwaith
- Diwylliant
- Diffyg tai, adeiladau a phob darpariaeth addas
- Rhywle i fynd/treulio amser
- Amddifadedd cudd
- Systemau cefnogi
- Mynediad at wybodaeth
- Ffôn/Band-eang
- Mynediad at hyfforddiant

Am ragor o wybodaeth ar y prosiect hwn:
Noeline Thomas, Cydlynydd Partneriaeth Plant,
Partneriaeth Plant, Tŷ Lime Grove, Lime Grove Avenue, Sir Gaerfyrddin SA31 1SW

Cyflwyniad ar Brosiect Addysg Cymheiriaid Gan Gyngor Sir Ceredigion a phobl ifanc o'r prosiect

Prosiect fu'n cefnogi pobl ifanc hawdd eu niweidio i gynhyrchu fideo proffesiynol wedi ei olygu'n llawn i'w ddefnyddio yn yr ysgol a lleoliadau eraill ar faterion iechyd rhyw.

Amlinelliad o'r prosiect

Mae arbenigwr hybu iechyd wedi cynnal gwaith dadansoddi anghenion ar iechyd rhyw/ datblygu perthynas ar draws y sir wedi darganfod:-

- Yr angen i gynnal gwaith cyswllt â chleientiaid
- Diffyg adnoddau yn y maes hwn
- Pryderon bod y cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ddiffygiol.
- Yr angen i ymdrin â'r addysg fwy cymdeithasol hon tu allan i ysgolion
- Nid yw'r grwpiau anoddaf eu cyrraedd yn cyrraedd at yr adnoddau/deunyddiau sydd ar gael

Sut y gwnaeth y prosiect ddatblygu

- Ystyriaeth a chefnogaeth i bobl ifanc ddatblygu eu hadnoddau eu hunain e.e. drama yr oeddem yn mynd i'w ffilmio gan ddefnyddio uned ddarlledu allanol.
- Yr hyn ddigwyddodd mewn gwirionedd oedd grŵp o bobl ifanc anghenus iawn 13 - 16 oed yn ymdrin â lliaws o broblemau
- Er mwyn ysgafnhau'r gwaith rhannwyd y grŵp yn 2 grŵp llai, 1 ar gyfer y bobl ifanc sydd mewn gofal, y llall ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd dan anfantais ond yn dal i fyw yn eu cartrefi eu hunain
- Tra bydd y fideo yn ddefnyddiol iawn, yn y broses o'i lunio y mae gwir werth y prosiect i'r grŵp arbennig hwn o bobl ifanc

Cydweithio

- Datblygwyd y prosiect i gychwyn gyda phobl ifanc ac Ymwelwyr Iechyd, gweithwyr cymdeithasol a staff prosiect, staff addysg a staff gwasanaeth ieuenctid
- Daeth cyllid yn wreiddiol gan Cymorth ar gyfer:
    - ❖ Cydlynydd prosiect
    - ❖ Golygu a chynhyrchu fideo gan adran cyfryngau Prifysgol Llambed
    - ❖ FPA Cymru i gynhyrchu pecyn dysgu
- Cyllid ychwanegol gan 'Coop dividend' ar gyfer lleoliadau, bwyd a thrafnidiaeth

Beth ddigwyddodd mewn gwirionedd

- Daeth y bobl ifanc yno gyda baich emosiynol o ganlyniad i'w hamgylchiadau e.e. newid lleoliad os mewn gofal
- Roedd amgylchiadau heriol tu allan i'r grŵp oedd yn cael effaith anferth y tu mewn i'r grŵp
- Aeth y ffocws ar y broses o addysgu, codi ymwybyddiaeth fel sgil-gynnyrch i waith y grŵp
- Fe newidiodd aelodaeth y grŵp yn sylweddol yn wythnosol a thros oes y prosiect
- Cynhyrchwyd 2 fideo gyda negeseuon tebyg ac fe'i cyfunwyd yn 1 fideo gyda mannau i aros i annog trafodaeth/cwestiynau

- Dangoswyd y fideo i uwch reolwyr yn yr ardal a welodd hyn fel datblygiad ffafriol iawn
- Mae'r pecyn yn y broses o gael ei gyfieithu ond mae'r fideo'n parhau yn Saesneg
- Cyflwynwyd y prosiect hwn am gyllid ychwanegol sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y sir ar gyfer iechyd rhyw, ond ni fu'n llwyddiannus

Y sefyllfa ar hyn o bryd

- Mae'r gwaith wedi datblygu'n becyn dysgu ar gyfer addysgu cymheiriaid.
- Mae'r bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y fideo ac yn y gwaith o'i gynhyrchu wedi dod yn addysgwyr cymheiriaid
- Cynhaliwyd sesiynau addysgu cymheiriaid gydag addysgwyr cymheiriaid â phobl ifanc eraill o Plant mewn Angen/Amddiffyn Plant/PRU a grwpiau sy'n cael gofal
- Mae 2 berson ifanc yn cynnal y grwpiau hyn wedi paratoad gan oedolion ymlaen llaw ac yn dilyn y sesiynau a gwaith dilynol
- Telir £15 yr awr am bob sesiwn i'r bobl ifanc (gan Cymorth),
- Derbyniodd 6 o bobl ifanc, o ganlyniad i'w cyfraniad, wobr arian cynllun Dug Caeredin
- Nid ydym yn siŵr a ddylem farchnata'r adnodd oherwydd ei fod wedi cael ei feirniadu nad yw'n un proffesiynol - ond dyna yw ei ogoniant
- Byddwn yn cynnal cyfarfod gwerthuso yn y sir ym mis Rhagfyr i adolygu'r broses
- Bydd raid i ni bennu sut y byddwn yn ymdrin â grwpiau tebyg o bobl ifanc yn y dyfodol i ddefnyddio proses debyg +/- cynhyrchu fideo

Costau £14,383

Am ragor o wybodaeth ar y prosiect, cysylltwch â:
Raywyn Law, Cydlynydd Prosiectau, Cyngor Sir Ceredigion, London House,
Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion SA46 0AJ

Mesur effaith gwaith ataliol ar sail tystiolaeth
Cyflwynwyd gan: Ann Fairnington, Cymunedau sy'n Gofalu (CtC)

Defnyddiodd y cyflwyniad hwn enghreifftiau o Ben-y-bont ar Ogwr a Chaerffili i grynhoi'r datblygiadau hyd yn hyn, a dangos sut y mae pobl ifanc a chymunedau lleol wedi bod yn ymwneud â'r broses atal.

Edrychodd y gweithdy'n fyr ar waith CtC, y ddamcaniaeth tu ôl i'r gwaith a sut y mae'n cysylltu â gwaith Cymorth. Yna aethom ymlaen i ddisgrifio'r arolwg ieuenctid a'r wybodaeth y mae'n ei rhoi i ni ac ym mha ffordd y gellir ei defnyddio a nifer o raglenni a argymhellwyd gan Gymunedau sy'n Gofalu sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd a'u heffaith.

Mae CtC yn gweithio i leihau troseddau ieuenctid ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, methiant yn yr ysgol, beichiogrwydd oedran ysgol a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae'r nodau hyn yn rhai uchelgeisiol a'r unig ffordd y gellir eu gwireddu yw trwy i bawb weithio mewn partneriaeth a gweithio'n gyson dros gyfnod maith o amser. Rydym yn argymell y dylem ddefnyddio rhywbeth sy'n cael ei ddisgrifio mewn cylchoedd academaidd fel 'Gwyddoniaeth Ataliol' i ymdrin â'r problemau hyn. Mae hyn yn dynodi'r risg a'r ffactorau gwarchodol sy'n rhagweld y problemau ac yn dynodi strategaethau a rhaglenni profedig sy'n lleihau'r risg ac yn cynyddu'r amddiffyniad. Defnyddiodd CtC y casgliadau o astudiaethau niferus, hydredol i ddynodi'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â symptomau allgauedd cymdeithasol yn y DG. Mae canllawiau Cymorth yn argymell cefnogaeth ar gyfer 'ymyrraeth ataliol gynnar wedi ei thargedu at blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu.' Mae hyn yn ddisgrifiad perffaith o'r ffordd y mae CtC yn gweithio gyda chymunedau lleol.

Rydym wedi dynodi 17 o ffactorau risg i gyd, wedi eu grwpio o gwmpas pedwar maes sef, teulu, ysgol, cymuned a ffrindiau a chymheiriaid. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r meysydd ym mywydau pobl ifanc a bydd pob maes yn cael ei ddylanwad mwyaf ar wahanol oedran yn eu bywydau. Gellir cysylltu'r pedwar maes a'r ffactorau risg unigol sy'n llunio pob un ohonynt â Chwe Thema Cymorth a nodwyd yng nghanllawiau'r Cynulliad. Gall defnyddio'r ffactorau risg hyn helpu partneriaeth i ddynodi pa faterion neu themau sydd angen sylw ym mha ardaloedd lleol. Gellir mesur ffactorau risg ar lefel cymuned leol cymharol fechan, er enghraifft cymunedau o tua chant o bobl neu ychydig o strydoedd. Mae hyn yn caniatau i wasanaethau gael eu targedu at yr ardaloedd hynny sydd a mwyaf o'u hangen heb yr angen i ddynodi plant neu bobl ifanc unigol.

Wedi dynodi'r risgiau a'r ffactorau gwarchodol gan ddefnyddio astudiaethau hydredol, y cam nesaf oedd datblygu offeryn i'w mesur. Y prif offeryn y byddwn yn ei ddefnyddio yw arolwg ysgol. Holiadur yw hwn i'w lenwi gan y bobl ifanc a ddyluniwyd gan Brifysgol Rhydychen ac a brofwyd ac a ddatblygwyd dros y 7 mlynedd diwethaf. Dangoswyd bod hwn yn offeryn dibynadwy iawn. Mae'n gofyn dros 80 o gwestiynau am agweddau pobl ifanc a'u hymddygiad ac fe'i dyluniwyd i ddweud wrthym am eu teuluoedd a'u bywydau pan oeddent yn iau hefyd. Felly, er ei fod yn cael ei ddefnyddio i rai 11-16 mlwydd oed mae'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am agweddau rhieni, y gymuned gyfan a bywydau brodyr a chwiorydd iau. Mae'r arolwg hwn yn rhoi gwybodaeth i ni ar 13 allan o'r 17 ffactor risg.

Oherwydd bod yr arolwg hwn wedi sefydlu mor dda mae gennym lawer o ddata cymharol. Rydym wedi cynnal arolwg ar tua 40,000 o bobl ifanc yng Nghymru yn unig, yn ogystal â thua 30 o arolygon eraill mewn awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban. Bedair blynedd yn ôl fe wnaethom gynnal arolwg cenedlaethol ar draws y DG pan wnaethom ddewis sampl oedd yn cynrychioli poblogaeth y DG. Bydd arolwg cenedlaethol newydd yn cael ei gynnal yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Mae'r tua 80 o gwestiynau gwahanol yn yr arolwg ieuenctid yn caniatau i ni gasglu llawer iawn o wybodaeth am lawer o bynciau. Gallwn ddadansoddi'r atebion yn ôl rhyw ac oedran a chymharu'r atebion a roddir gan boblogaethau penodol o bobl ifanc gyda'r cyfartaledd (naill ai'r cyfartaledd yn y sir arbennig honno neu'r cyfartaledd yn y DG neu'r ddau).

Yn ogystal ag atebion unigol rydym wedi datblygu system ar gyfer grwpio atebion gan ddefnyddio dadansoddiad ystadegol. Mae hyn yn golygu ein bod yn medru rhoi'r atebion cyfun ar raddfa fel bod gennym sgôr Ffactor Risg neu sgôr Ffactor Amddiffyn. Yna gallwn gymharu'r sgoriau ffactor risg ar gyfer grŵp o bobl ifanc gyda'r sgôr ffactor risg ar gyfartaledd yn yr awdurdod lleol hwnnw neu yn y DG ac yn y ffordd honno, yn hytrach nag ymdrin â'r un broblem ar ôl iddi ddigwydd o hyd - ymladd y tân - gallwn dargedu adnoddau ar yr achosion sylfaenol a dechrau atal y broblem rhag digwydd yn y lle cyntaf. Felly os bydd grŵp o bobl ifanc yn dweud wrthym eu bod yn yfed yn drwm, bydd eu sgoriau ffactor risg yn dweud wrthym a yw hyn oherwydd ei fod yn arferol yn eu grŵp o gyfoedion, neu efallai bod ymddygiad ac agweddau eu rhieni yn effeithio arnynt neu efallai ei bod yn hawdd iawn cael gafael ar alcohol yn eu hardal ac mai dyna yw'r prif effaith.

Fe fuom yn edrych ar y ffordd y mae sefydliadau yng Nghymru wedi defnyddio'r wybodaeth cyn belled. Mae rhai ardaloedd yn comisiynu CtC i wneud ymchwil ac yna bwydo'r cyfoeth o wybodaeth i'w gwahanol brosesau cynllunio. Mae Caerffili, er enghraifft wedi defnyddio'r arolwg ar draws y fwrdeistref ac rydym wedi cynhyrchu ystod o adroddiadau a fydd yn cael eu defnyddio gan bartneriaethau gwahanol i ymdrin â'r meysydd sy'n peri pryder iddynt. Rhoddwyd adroddiad i bob ysgol yng Nghaerffili oedd yn edrych ar y risg benodol a'r ffactorau gwarchodol yn yr ysgol honno o'i chymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iawn i'r ysgol ar gyfer ei chynlluniau datblygu yn y dyfodol. Maent hefyd yn defnyddio'r data traws fwrdeistrefol i gefnogi ceisiadau i LCC a'r Swyddfa Gartref ac eraill ar gyfer rhaglenni penodol.

Edrychodd adran olaf y gweithdy ar sut y gallem leihau'r ffactorau risg. Dyma'r rhan arall bwysig o waith y CtC. Rydym yn casglu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio i leihau ffactorau risg. Yma eto, lle mae'n bosibl rydym yn ceisio argymell rhaglenni sydd wedi cael eu gwerthuso'n drylwyr yn unig, fel ein bod yn medru bod yn siŵr o'u heffeithiolrwydd. Mae CtC wedi casglu manylion o astudiaethau gwerthuso fel hyn ac mae'n ei roi i bartneriaid lleol fel eu bod yn medru gwneud dewisiadau addas yn lleol am y ffordd y dylid defnyddio adnoddau. Nid yw bob amser yn ymwneud â dod â rhaglenni newydd i mewn, gall hefyd fod yn ymwneud â newid y ffordd y mae'r gwasanaethau sy'n bodoli'n cael eu darparu, gan ad-drefnu'r ffordd y mae'r adnoddau cyfredol yn cael eu defnyddio. Eto mae llawer o'r rhaglenni hyn sy'n cael eu hargymell yn gweddu i un neu fwy o'r themau yng nghanllawiau Cymorth.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Ann Fairnington, Cyfarwyddydd Cymru, Cymunedau sy'n Gofalu,

10fed Llawr, Tŷ Alexandra, Heol Alexandra, Abertawe SA1 5ED

Chwarae a Hamdden Cyfle Barnardo's i Blant Anabl
Cyflwynwyd gan: Cyngor Sir Ddinbych a phobl ifanc o'r prosiect

Disgrifiodd y cyflwyniad sut y mae'r prosiect wedi datblygu gweithgareddau chwarae a hamdden cynhwysol i blant anabl 4-10 oed, ar sail y model '"interplay".

Roedd lluniau a sylwadau gan y plant yn mynegi eu teimladau am y prosiect:

"Er na allai Elinor siarad â'r plant eraill, roedd yn hoffi'r dyddiau gymaint fel ei bod yn crio pan oedd yn amser mynd adref."

"Un diwrnod mi aethon ni i Fferm Parc Llandudno. Fe gawsom ni hwyl ar y tractor a hefyd ar y tractorau bach. Y broblem i'm ffrind oedd ei fod yn defnyddio cadair olwyn ac felly nid oedd yn medru cael tro ar y tractor. Roedd hyn yn gwneud iddo deimlo ei fod yn cael ei adael allan a'i fod ar ben ei hun".

Am ragor o fanylion am y prosiect cysylltwch â:
Glenys Griffiths, Rheolydd Gwasanaeth, Barnardo's Cymru, Cyfle, Canolfan Henllan, Henllan, ger Dinbych, Sir Ddinbych LL16 5YA

Clywed – gwneud gwahaniaeth
Cyflwynwyd gan: Bartneriaeth Pobl Ifanc Gwynedd a phobl ifanc o'r prosiect.

Cynllun sy'n asesu effeithiolrwydd asiantaethau sy'n cynnig gwasanaethau i blant wrth ymrymuso llais plant, pobl ifanc a theuluoedd yw Clywed. Ei nod yw creu strategaeth i ymrymuso llais plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Cred Clywed bod 6 cham tuag at ymrymuso llais pobl ifanc a theuluoedd ac asesir asiantaethau yn ôl eu gallu i ddatblygu'r 6 cham:

- Llais (gweithgareddau i ofyn barn)
- Gwrando (cael y bobl iawn i gyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc)
- Clywed (parodrwydd asiantaethau i glywed yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud)
- Dylanwad (gadael i'r hyn y maent yn ei glywed ddylanwadu ar y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau)
- Gweithredu (newid pethau ar sail barn y plant a'r bobl ifanc)
- Cynnydd (prosesau cyson i ofyn barn)

Pwy: Gall asiantaeth gael ei hasesu boed yn fawr, yn fach, yn breifat, yn wirfoddol, cyngor neu wasanaeth iechyd.

Beth: Dynodi eu bod am weithio mewn ffordd sy'n parchu plant a phobl ifanc

Sut: Trwy gytuno i feddwl am blant a phobl ifanc cyn gwneud penderfyniadau

Yr asiantaethau sydd wedi cael y Logo hyd yn hyn yw:

Ward y Plant Ysbyty Gwynedd
Uned Addysg Bryn Llwyd
Canolfan Hamdden Porthmadog
Canolfan Hamdden Bangor
R Jones, Bangor (Deintydd)
Clwb Ieuenctid Blaenau Ffestiniog
Clwb Ieuenctid Porthmadog
SNAP
GISDA Caernarfon
GISDA Blaenau Ffestiniog
Cymorth i Ferched De Gwynedd
Cymorth i Ferched Bangor
Coleg Glynllifon
Parc Glynllifon
Llyfrgell Bangor
Llyfrgell Tywyn
Heddlu Llanberis
Ysgol Bron y Foel
Ysgol Eifionnydd
Ysgol y Gader
Ysgol y Moelwyn
Nyrs Ysgol Dyffryn Ogwen
Clinig Atal Cenhedlu, Bangor

Cynigir cymorth a hyfforddiant i'r holl asiantaethau yn y ffordd i ddatblygu llais eu defnyddwyr ac fe'i hasesir ar eu gallu i ymrymuso llais defnyddwyr.
Mae gan Clywed 5 oedolyn a 12 o bobl ifanc wedi eu hyfforddi fel hyrwyddwyr.

Mae'r broses yn syml:

- Siarad â'r gweithwyr.
- Siarad â'r plant, pobl ifanc neu rieni i holi eu barn.
- Os bydd y defnyddwyr yn teimlo bod yr asiantaeth yn gwrando neu yn ceisio gwrando, mae'r asiantaeth yn derbyn logo Clywed.

- Mae’r cyfan yn derbyn awgrymiadau ar sut i wella ac mae rhai yn cael tasgau i’w cyflawni cyn derbyn y Logo.

Mae’r cynllun yn cael ei ariannu gan y rhaglen Plant yn Gyntaf, cronfa Cymorth ac Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd.

Mae’r oedolion sy’n rhan o Clywed yn mwynhau bod yn rhan o gynllun newydd a gwahanol sy’n gofyn cwestiynau gwirioneddol ynglŷn â pha wasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

Gall y bobl ifanc leisio eu barn ac maent yn gallu mynd ymlaen i gael hyfforddiant a gwaith achlysurol trwy’r cynllun.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch ag:
Angharad Davies, Cydlynydd Fforwm yr Ifanc, Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Gwynedd, Blwch Post 6, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SB

Atgofion Cymunedol
Cyflwynwyd gan Liz Braby, Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd

"Mae hanes llafar yn cofnodi atgofion byw a theimladau pob math o bobl, llawer ohonynt yn rai fyddai'n cael eu cuddio rhag hanes, ac yn creu darlun mwy byw o'n gorffennol."

Prosiect hanes llafar yw 'Atgofion Cymunedol' sy'n cael ei ddarparu gan Wasanaeth Amgueddfeydd a Threftadaeth Casnewydd, ac a gychwynnodd yn Hydref 2003. Mae'r prosiect ar hyn o bryd wedi ei anelu at gofnodi hanes bywyd a phrofiadau cymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig Casnewydd. Mae profiadau'r cymunedau hyn i raddau helaeth ar goll o hanes Cymru ac mae Casnewydd am gydnabod y cyfraniad pwysig a wnaethant i etifeddiaeth unigryw'r Ddinas.

Yng Nghasnewydd, mae'r bobl o gymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cyfrif am tua 5% o boblogaeth y Ddinas. Ond, mae'r ganran hon yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd o'r Ddinas. Yn Maendy - lle mae'r prosiect 'Atgofion Cymunedol' wedi ei leoli mae'r niferoedd yn llawer uwch, gyda thua 20% o'r bobl leol yn perthyn i'r gymuned Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig. Heddiw, mae llawer o fewnfudwyr i Gasnewydd wedi setlo a magu teuluoedd yn y Ddinas. Mae nifer fawr o'r ail a'r drydedd genhedlaeth wedi eu geni yng Nghasnewydd ac wedi byw yno ar hyd eu hoes.

Mae'r prosiect "Atgofion Cymunedol" yn cyflogi swyddog prosiect amser llawn, Liz Braby, sy'n gweithio mewn partneriaeth â grwpiau ac unigolion i gasglu eu storïau a dwyn eu profiadau i'r gymuned ehangach yn y Ddinas. Mae plant a phobl ifanc yn cyfrannu mewn dwy ffordd yn bennaf:

- i gofnodi gwybodaeth am eu bywydau a'u diwylliannau; ac
- i gofnodi bywydau pobl hŷn yn y cymunedau BME i greu adnoddau sy'n gweddu i'r Cwricwlwm Cenedlaethol i ddarganfod gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau, crefyddau a ffyrdd o fyw.

<u>Cofnodi bywydau pobl</u>
Un o brif nodau'r prosiect 'Atgofion Cymunedol' yw creu archif o gyfweliadau hanes oes gyda phobl o gymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig Casnewydd. Cynhaliwyd dros ugain o gyfweliadau eisoes gydag unigolion o Bacistan, Bangladesh, Somalia, Jamaica, Iran, Algeria a'r Congo. Mae'r recordiadau o hanes oes yn galluogi i atgofion a storïau gael eu cadw a'u defnyddio er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Defnyddiwyd dyfyniadau o'r cyfweliadau eisoes ar gyfer arddangosfeydd, cyhoeddiadau, tudalennau ar y we ac adnoddau ysgol.

<u>Arddangosfeydd dros dro</u>
Mae arddangosfa 'Atgofion Cymunedol' gyntaf Gwasanaeth Amgueddfeydd a Threftadaeth Casnewydd, 'Gwyliau yn y Famwlad' yn edrych ar brofiadau aelodau o gymunedau BME a aned yng Nghymru wrth ymweld â'u mamwlad.

Bu'r arddangosfa mewn sawl lleoliad cymunedol gan gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol ac mae'n awr ar gael i'w logi i ysgolion. Mae llyfr yn cyd-fynd â'r arddangosfa sy'n cynnwys disgrifiadau manylach o brofiadau pobl, ac mae'r arddangosfa a'r llyfr yn cynnwys cyfieithiadau Wrdw a Chymraeg i ehangu'r mynediad a'r ddealltwriaeth ar draws cymunedau'r Ddinas.

Yn fwy diweddar agorodd Amgueddfa Casnewydd hefyd arddangosfa dan yr enw 'Priodferch Asiaidd' yn adrodd profiadau priodi Asiaidd ar draws y cenedlaethau.

Storïau ar ffilm

Cyfweliadau gydag aelodau o'r cymunedau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghasnewydd. Defnyddiwyd dyfyniadau o'r rhain i gynhyrchu DVD am brofiadau pobl sydd wedi gorfod ffoi o'u gwledydd. Mae'r cyflwyniad 30 munud hwn yn cyfuno darluniau a lleisiau i greu ffilm rymus ac effeithiol.

Bwriad y prosiect oedd herio rhai o'r syniadau negyddol am Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn y wasg, ac ymrymuso Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches trwy ddangos diddordeb yn eu profiadau. Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd a Threftadaeth Casnewydd yn bwriadu cylchredeg copïau o'r DVD i ysgolion uwchradd yn y Ddinas fel adnodd dysgu.

Prosiect Ffotograffiaeth

Rhoddwyd camerâu taflu i ffwrdd i bobl ifanc Asiaidd o Grŵp Ieuenctid Maendy i dynnu lluniau o'u bywydau. Nod y prosiect oedd eu hannog i ymfalchïo yn eu bywydau eu hunain, a'u harchwilio trwy ffotograffiaeth. Buont yn trafod eu dewis o ddelweddau gydag aelodau eraill o'r Grŵp a defnyddiwyd eu geiriau a'u ffotograffau i greu arddangosfa deithiol. Dangoswyd yr arddangosfa yng Nghanolfan Gymunedol y Grŵp Ieuenctid, a fu'n fodd gweledol o ddangos eu gwaith caled i'w cymheiriaid ac aelodau eraill o'r gymuned.

Blwch Benthyca Diwylliannol 'Edge Girls'

Mae merched o'r Grŵp Ieuenctid Merched Asiaidd 'Edge' yng Nghasnewydd wedi creu dau flwch adnoddau diwylliannol i ysgolion. Daeth y merched a gwrthrychau i mewn o'u diwylliant ac fe'i cofnodwyd ar finidisg yn siarad am beth ydyn nhw a'r hyn y maent yn cael eu defnyddio ar ei gyfer. Bwriedir i'r blychau o wrthrychau, sy'n cynnwys CD o ddisgrifiadau'r merched hefyd, ar gyfer eu defnyddio mewn ysgolion i ddwyn safbwyntiau newydd i wersi fel Astudiaethau Crefyddol a Dinasyddiaeth.

Ciosg Cymunedol

Nod y prosiect hwn oedd creu cân arddangos gwrthrychau rhyngweithiol y gellir ei ddefnyddio tu allan i Amgueddfeydd traddodiadol e.e. mewn ysgol, llyfrgell neu ganolfan gymunedol. Mae'r cân yn fwy rhyngweithiol na chân arddangos syml gyda'r bwriad o hybu dysgu trwy ddefnyddio gwahanol synhwyrau e.e. edrych, cyffwrdd, gwrando. Ar hyn o bryd mae'r cân yn seiliedig ar thema dillad Asiaidd. Mae ynddo ddillad yn y top gwydr, drôr o ddillad Asiaidd i'w gwisgo, adnoddau papur i'w darllen, lluniau o ddillad i'w lliwio, a man gwrando i glywed aelodau o'r gymuned yn siarad am wahanol eitemau o ddillad Asiaidd. Lansiwyd y Ciosg yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd yng Ngorffennaf 2004 ac mae'n awr yn cael ei arddangos yn Llyfrgell Ganolog Casnewydd.

Gwefan 'Atgofion Cymunedol'

Lansiwyd y wefan 'Atgofion Cymunedol' ym mis Hydref 2004 ar: www.newport.gov.uk/communitymemories. Mae'r adnodd addysgiadol hwn yn cynnwys dyfyniadau o gyfweliadau gyda gwahanol aelodau o gymunedau BME a newyddion am brosiectau a digwyddiadau sy'n cael eu trefnu.

Y dyfodol

Gobeithio y bydd y prosiect ‘Atgofion Cymunedol’ sy’n rhedeg ers 2003, yn parhau i gael ei ariannu am y blynyddoedd nesaf. Gobeithir y bydd yr amserlen hon yn caniatau i’r cysylltiadau rhwng Gwasanaeth Amgueddfeydd a Threftadaeth Casnewydd a’r cymunedau BME gryfhau. Hoffai staff yr amgueddfa weld y gymuned yn cymryd perchenogaeth gynyddol ar y prosiect a chael budd o’r ymrymuso a’r hunan barch fydd yn deillio ohono. Gobeithir hefyd y bydd gwell dealltwriaeth o fywydau a diwylliannau pobl wahanol yn helpu i wella goddefgarwch a chyd-dynnu yng Nghasnewydd.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y prosiect ‘Atgofion Cymunedol’ cysylltwch â:
Liz Braby – Swyddog Prosiect ‘Atgofion Cymunedol’ – Ffôn: 01633 246020
(e-bost: liz.braby@newport.gov.uk)

Dull trefol a gwledig o gael y fantais fwyaf posibl o wasanaethau Cychwyn Cadarn mewn sir wledig
Cyflwynwyd gan Cychwyn Cadarn, Cyngor Sir Powys

Gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau yn y Sir, roedd y cyflwyniad yn esbonio'r ffyrdd o wneud y mwyaf o'r potensial i ddarparu gwasanaethau i boblogaeth wledig.

Trafodaeth: Sut gall y sialensiau i wasanaethau, gwaith grŵp yn arbennig, gael eu goresgyn mewn ardal wledig?

- Cael pobl at ei gilydd i gychwyn.
- Helpu i gefnogi Teuluoedd.
- Gweithio gyda'i gilydd (asiantaethau).
- Gwirfoddolwyr i helpu.
- Cost uchel i gael cefnogaeth at y teuluoedd.
- Goresgyn diffyg ymddiriedaeth, dod â phobl at ei gilydd i'w cael i weithio gyda'i gilydd.
- Prosiect cefnogi Achub y Plant ym Mugeildy (Powys), prosiect symudol - gellir ei ailadrodd.
- Ychydig o arian i ardaloedd sy'n cael eu dosbarthu fel rhai difreintiedig dan y mynegai o amddifadedd lluosog.
- Mae gan rai ardaloedd lle mae mwyaf o angen fwy o wasanaethau na'r rhan fwyaf o ardaloedd gwledig lle mae'r ddarpariaeth wedi dod i ben.
- Defnyddio gwirfoddolwyr i gael aelodau'r gymuned yn rhan o grwpiau lleol. Hyfforddiant yn cael ei gynnig dros gyfnod o 8-wythnos (Prosiectau Homestart) (Cydlynydd gwirfoddol yn cael ei ariannu trwy Cychwyn Cadarn).
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill gan ddefnyddio trafnidiaeth (bws), mynd a chefnogaeth a gwybodaeth i gymunedau, ond nid yw'r gwasanaethau bws ar gael yn rhwydd mewn rhai ardaloedd gwledig.
- Teuluoedd yn defnyddio gwasanaethau yn eu cymunedau eu hunain. Rhai'n teimlo eu bod yn cael eu tynnu o'u hardal.
- Homestart yn edrych ar waith atal (Gall gymryd cenhedlaeth gyfan i weld y manteision).
- Angen edrych ar ddyblygu gwasanaethau.
- Newidiadau ariannu yn ei gwneud yn anodd parhau gwasanaethau yn y ffordd y sefydlwyd nhw - methu cynllunio strategaeth tymor canolig neu hir oherwydd ariannu am flwyddyn neu am gyfnod byr.
- Angen edrych yn y tymor hir ar waith atal (cyllid).
- Ystadegau ym Mro Morgannwg yn dangos effaith ar y nifer o blant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Lynne Jones, Cydlynydd Cychwyn Cadarn, Fforwm Plant a Theuluoedd Powys,
Tŷ Sefton, Stryd Middleton, Llandrindod, Powys LD1 5DG

Hyrwyddo Atal
Cyflwynwyd gan Dîm Troseddwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf

Gan ddefnyddio astudiaethau achos, dangosodd y cyflwyniad sut y mae arian Cymorth wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu partneriaethau, sy'n hyrwyddo gwaith atal cynnar gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o golli diddordeb .

Nododd Adolygiad Traws Bynciol yn 2002:

- Dylai gwasanaethau prif-ffrwd i blant a phobl ifanc ganolbwyntio mwy i sicrhau eu bod yn ymateb yn well i'r rhai sydd â'r angen mwyaf arnynt.
- Dylid medru dynodi angen yn gynnar i sicrhau bod gwasanaethau ataliol ar gael cyn i blant, pobl ifanc a theuluoedd fynd i argyfwng

Ymateb y Llywodraeth i hyn oedd:

- LLYWODRAETH GENEDLAETHOL – Strategaeth Gydlyn gan yr asiantaethau hynny sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc
- LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU - Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc

OND – Nid yw plant a phobl ifanc mewn perygl yn grŵp wedi ei ddiffinio'n bendant.

Cwestiynau:

- A yw'r defnydd gorau'n cael ei wneud o arfer gorau a'r ystod bresennol o ymyraethau posibl i atal ymddygiad sy'n creu risg ymhlith plant a phobl ifanc?
- A oes tystiolaeth bod effaith esgeulustod rhieni a thrais yn y teulu wedi cael ei ddarganfod wrth ddatblygu gwasanaethau?
- A ydym yn hyrwyddo ffactorau ataliol a all wella gwytnwch unigol a gwarchod rhag y ffactorau risg?
- A oes cydweithredu effeithiol rhwng asiantaethau, yn arbennig ar y pwyntiau trosglwyddo?
- A oes rhyng-gysylltiad effeithiol rhwng rhaglenni a gwasanaethau ar y pwynt hwnnw?

Astudiaethau achos a astudiwyd oedd:

- Partneriaeth Ieuenctid
- Prosiect 'Remedy'
- Mentrau Hil

Cwestiynau

- Beth yw'r targedau deilliannau allweddol ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn eich ardal?
- Beth yw'r prif rwystrau i atal cyrraedd y targedau hynny?
- Beth yw'r cydbwysedd presennol rhwng gwasanaethau atal ac ymyrryd mewn argyfwng?
- Sut gallwn ni aildargedu ac ail ganolbwyntio'r gwasanaethau prif-ffrwd cyfredol a'r adnoddau?
- Pa beirianweithiau allwn ni eu defnyddio i sicrhau bod llinynnau cyllido yn y dyfodol yn cael eu defnyddio i dargedu angen?

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch ag:

Elspeth Wynn, Rheolydd Gweithredol, Tîm Troseddwyr Ifanc CBS Rhondda Cynon Taf, Fairway Court, Heol Tonteg, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd CF37 5UA

Y Sector Gwirfoddol a'r Fframwaith ar Gyfer Partneriaeth Cyflwynwyd gan Gyngres Wirfoddol Torfaen/ CBS Torfaen

Archwiliodd y cyflwyniad sut y mae penodi Swyddog Cyswllt Gwirfoddol yn datblygu potensial y sector gwirfoddol yn ei rôl o ddarparu gwasanaeth yn y Cynlluniau Darparu Fframwaith.

Yn Sector Gwirfoddol Torfaen bu cynrychiolwyr ar y Bartneriaeth Pobl Ifanc yn lobïo am swydd yn seiliedig yn y sector a allai eu cefnogi i fod yn fwy effeithiol yn eu rôl. Pan drafodwyd hyn ar raddfa ehangach, cytunwyd y dylai grant arbennig y PPI o £20,000 gael arian cyfatebol o gronfa Cymorth, gan greu swydd amser llawn a fyddai'n cefnogi'r holl gyrff gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn Nhorfaen.

Prif nod y gwaith hwn yw cryfhau llais y sector gwirfoddol yn y fframwaith. Er mwyn gwneud hyn roedd rhaid:

- Datblygu gweithdrefnau ymarferol i sicrhau bod cyrff gwirfoddol yn medru cymryd rhan effeithiol wrth gynllunio gwasanaethau a'u darparu ar bob lefel yn yr isadeiledd cynllunio fframwaith
- Sefydlu peirianwaith i sicrhau bod cyrff sector gwirfoddol yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau yn y Fframwaith
- Hyrwyddo rhaglenni i gynyddu capasiti a chynnig cefnogaeth arall, yn ôl y gofyn, i ddiwallu anghenion cyrff gwirfoddol a'u cynrychiolwyr, fel eu bod yn medru cyfrannu'n effeithiol at y broses gynllunio a darparu
- Sicrhau bod cyrff gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn meddu ar agwedd wedi ei chydlynu, gan liflinio gweithgareddau ac osgoi dyblygu o ran ymdrech ac adnoddau
- Datblygu systemau a sianeli ar gyfer cyfathrebu rhwng cyrff gwirfoddol
- Datblygu gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod cyrff sector gwirfoddol yn medru ymgynghori'n effeithiol â phobl ifanc a'u cael i gyfrannu, gan greu cyfleoedd blaengar i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael cymryd rhan
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o waith y sector a'r fframwaith

Sut gallwn ni wneud hyn?
Fe wnaethom sefydlu Fforwm Plant Pobl Ifanc a Theuluoedd a lansiwyd yn llwyddiannus yn Nhachwedd 2003.
Yn y lansiad, cytunwyd ar strwythur y fforwm a'i Gylch Gorchwyl.
Sefydlwyd pedwar Grŵp Ffocws, gyda'r gwaith o oruchwylio materion penodol o fewn y fforwm sef:

- Ieuenctid
- Blynyddoedd Cynnar a Chanol
- Hamdden
- Iechyd a Lles

Yn ychwanegol at gysylltu â'r Bartneriaeth Pobl Ifanc (PPI) a'r Bartneriaeth Blant (PPP) mae'r grwpiau hyn hefyd yn cysylltu â'r grwpiau cynllunio pedwaredd haen. Yn y ffordd hon mae cyrff gwirfoddol yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau yn y Fframwaith, ac yn medru bwydo eu barn yn ôl, trwy gynrychiolwyr y sector gwirfoddol. Mae'r grwpiau hyn hefyd yn cymryd rhan mewn ymarferiad lle maent yn

dynodi ffynonellau ariannol gwahanol i gychwyn prosiectau sy'n cefnogi darparu'r Cynllun Fframwaith, Cynllun Gweithredu'r Bartneriaeth Pobl Ifanc a'r Cynllun Plant. Mae natur y cyllid sy'n cael ei geisio yn golygu bod y prosiectau hyn yn cael eu harwain a'u trefnu gan y sector gwirfoddol.

Gweithgareddau

- Cynhaliwyd dau gyfarfod arall o'r Fforwm, y ddau gyda phresenoldeb da, gydag adborth rhagorol. Roedd yr ail ddigwyddiad yn canolbwyntio ar "Gael plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o lunio penderfyniadau". O hyn mae cronfa ddata ymgynghori'n cael ei greu o gyrff gwirfoddol sy'n barod i gynnal sesiynau gyda phlant a phobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw, o gwmpas unrhyw ymgynghoriadau sy'n codi. Datblygiad arall o hyn yw ffurfio grŵp cydlynwyr ymgynghori a dynnwyd at ei gilydd gan Gydlynydd Fforwm Pobl Ifanc Torfaen. Bydd y grŵp hwn yn edrych ar hyrwyddo arfer da ond hefyd rhagor o gyfranogiad pobl ifanc yn Nhorfaen
- Mae grwpiau ffocws yn cyfarfod bob yn ail fis, wythnos cyn cyfarfodydd y PPI a'r PP er mwyn i broblemau, materion sy'n codi ac ati gael eu bwydo i gyfarfodydd y bartneriaeth.
- Grŵp Profiad Cyfranogiad Cymunedol wedi cyflwyno cynnig ariannu i'r Rhwydwaith Dysgu 14-19 oed
- Grŵp Ffocws Hamdden wedi gwneud cais llwyddiannus i Activate am arian (£4400) i ddarparu gweithgareddau ar gyfer y Diwrnod Chwarae Cenedlaethol
- Sefydlwyd tri grŵp cyllido i edrych ar
    - Gael mynediad at arian i gefnogi mentrau sy'n methu
    - Cefnogi pobl ifanc i fyw'n annibynnol
    - Gwaith gyda rhieni ifanc
    - Gwybodaeth a chyngor

  Mae'r grwpiau cyllido yn aml-asiantaethol o ran cymeriad, a byddant yn gweithio i ddatblygu cynigion sy'n cyd-fynd â'r strategaethau/cynlluniau presennol ac i gael mynediad at gyllid o'r grantiau a'r ymddiriedolaethau hynny sy'n agored i'r sector gwirfoddol i gefnogi'r gwaith o'u darparu. Byddai natur y cyllid hwn yn golygu y byddai'n rhaid i gorff gwirfoddol arwain a threfnu unrhyw swyddi sy'n codi.
- Bu ymgynghori ar ddewis cynrychiolwyr sector gwirfoddol gan fod dulliau gwahanol o ddewis cynrychiolwyr, mae gennym system unedig erbyn hyn gobeithio, gyda'r holl gynrychiolwyr yn cael eu henwebu trwy'r Fforwm
- Cyfraniad plant a phobl ifanc

Materion a godwyd

- Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol wedi llunio eu mewnbwn yn barod ar gyfer yr adolygiad ar y Fframwaith, ac mae'r rhain wedi cael eu trafod gyda'r cadeirydd, yr is-gadeirydd a'r cydlynydd fframwaith a'u hadrodd yn ôl i'r Fframwaith.
- Comisiynu prosiectau Cymorth.
- Dewisir Cynrychiolwyr Sector Gwirfoddol yn awr trwy'r Fforwm Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.

Cynnydd

- Er i lawer o waith gael ei wneud i gael y sector gwirfoddol i gymryd rhan yn y fforwm, mae rhai sectorau'n dal heb gymryd rhan lawn gan gynnwys grwpiau chwaraeon a'r cyrff mewn iwnifform. Fodd bynnag mae'r grŵp Ffocws Hamdden wedi cymryd y cyfrifoldeb o drefnu cystadleuaeth bêl-droed 5 bob

ochr Pencampwyr, a fydd yn cael rhai o'r clybiau chwaraeon i gyfrannu. Er bod cyfathrebu rhwng y Fforwm a'r cyrff mewn iwnifform, a bod aelodau yn mynychu'r fforwm, rhaid cryfhau hyn.

- Mae cyfathrebu'n bwnc o bwys, ac yn anochel nid yw rhai cyrff gwirfoddol yn derbyn yr wybodaeth sy'n angenrheidiol iddynt efallai. I ryw raddau, gellir datrys hyn trwy i'r Fframwaith gychwyn ei Strategaeth Gyfathrebu.
- Mae peth diffyg ymwybyddiaeth o hyd o'r hyn y mae cyrff gwirfoddol yn ei wneud mewn gwirionedd, yr amrywiaeth o gyrff sy'n ymwneud â'r sector, a gallu'r sector i gael mynediad at gronfeydd nad ydynt ar agor i asiantaethau statudol. Er mwyn gwrthweithio hyn, mae diwrnod ymwybyddiaeth sector gwirfoddol yn cael ei gynnal, y gynulleidfa y bwriedir hwn ar eu cyfer yw gweithwyr proffesiynol yn y sector statudol.

Am ragor o wybodaeth ar y prosiect hwn cysylltwch â:
Hayley Fidler, Swyddog Datblygu Plant a Phobl Ifanc, Cyngres Wirfoddol Torfaen, Adeiladau Portland, Commercial Street, Pont-y-pŵl, NP4 6JS

Archwilio gwerth a manteision Cymorth gyda thechnegau dadansoddi ymylol

Cyflwynwyd gan Brifysgol Morgannwg/CBS Torfaen/CBS Sir Fynwy / Third Sector First a Phrifysgol Leeds

Comisiynodd Torfaen a Sir Fynwy werthusiad o brosiectau Cymorth yn eu rhanbarthau i ddadansoddi:

- a yw prosiectau'n ataliol;
- a ydynt yn gweddu i'w haenau;
- a ydynt yn effeithiol; a ydynt yn cynnig gwerth da am arian?

Seiliwyd y gweithdy ar ddatblygiad a gweithredu technegau dadansoddi ymylol wrth werthuso dwy raglen Cymorth. Yn y gyntaf o'r rhaglenni hyn roedd pump ar hugain o brosiectau - pob un a'i hanes, amcanion a ffynonellau arian ei hun - wedi cael eu dwyn dan ymbarel Cymorth, er bod eu gwreiddiau mewn trefniadau grant blaenorol fel Cychwyn Cadarn. Yn yr un modd ac yn ardal awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, roedd Partneriaeth Fframwaith wedi ei chreu i reoli'r rhaglen newydd unedig hon. Roedd pob un o'r prosiectau i gael ei ail asesu, yn rhannol i sefydlu i ba raddau yr oedd y prosiectau sy'n bodoli'n cyfrannu at amcanion newydd a thros-fwaol Cronfa Cymorth.

Cynllun cyntaf y Bartneriaeth Fframwaith oedd comisiynu a gwerthuso pob prosiect yr oeddent wedi eu hetifeddu. Dadleuodd y tîm gwerthuso a gomisiynwyd i wneud y gwaith hwn, tra byddai gwerthusiadau ar wahân yn dangos pa mor dda y mae pob prosiect yn cyrraedd ei amcanion ei hun, na fyddai'n dweud dim wrth y Bartneriaeth Fframwaith am werth cymharol un prosiect o'i gymharu ag un arall.

Er enghraifft, byddai tystiolaeth bod prosiectau 1 a 2 ill dau'n perfformio'n dda o ran eu hamcanion penodol yn awgrymu y dylai'r ddau gael eu parhau yn y dyfodol.
Ond beth petai amcanion prosiect 1 o lawer mwy o werth na rhai prosiect 2, tra bod y gwariant ar brosiect 1 yn llawer llai na'r gwariant ar brosiect 2? Byddai hyn yn awgrymu bod y cydbwysed gwariant rhwng y ddau brosiect yn llai na delfrydol - ond ni fyddai'r neges bwysig hon ar gyfer cynllunio i'r dyfodol yn dod i'r golwg o werthusiadau ar wahân. Dadleuodd y tîm y byddai ychwanegu ymarfer 'dadansoddiad ymylol' at y gwerthusiadau yn helpu'r Bartneriaeth Fframwaith i ystyried y mathau hyn o faterion.

Beth yw dadansoddiad ymylol?
Fframwaith sy'n seiliedig ar egwyddorion economeg yw dadansoddiad ymylol. Fe'i defnyddir i archwilio'r cydbwysedd gwariant presennol mewn rhaglen a ddiffinnir. Nid yw hyn yn fater hawdd oherwydd mae manteision gwahanol brosiectau yn dod ar ffurfiau gwahanol ac yn anaml iawn y gellir eu cymharu'n wrthrychol. Mae budd yn gysyniad llawn gwerth (h.y. goddrychol), felly os yw'r gwerth a roddir i un math o fudd i gael ei gymharu â'r gwerth a roddir ar un arall, rhaid ymdrin â'r cwestiwn o werthoedd pwy yn gyntaf. Ni all dadansoddiad ymylol osgoi'r angen i wneud dyfarniadau ar sail gwerth, ond mae'n gorfodi iddynt fod yn dryloyw a chlir.

Mae dadansoddiad ymylol yn gweithio trwy ganolbwyntio ar yr enillion a'r colledion ymylol sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn lefelau o ariannu. Yn aml gwelir bod lleihad bychan mewn gwariant mewn un maes yn bosibl heb golli fawr o fudd tra bydd cynnydd cyfatebol fach mewn gwariant mewn meysydd eraill yn cynhyrchu

manteision ychwanegol mawr. Pan fydd hyn yn wir, bydd trosglwyddo adnoddau yn arwain at fwy o fantais gyffredinol (h.y. mwy o gyfanswm gwerth i'r budd) heb unrhyw gost ychwanegol.

Y gweithdy

Mae'r ymarfer yn seiliedig ar weithredu dadansoddiad ymylol yn ardal dau awdurdod lleol, ond gyda'r enwau a'r nodweddion wedi eu newid er mwyn eu cadw'n anhysbys, e.e. gwariant.

Yn gyntaf, bu ymarfer twymo lan yn ystyried y cydbwysedd gwariant rhwng bandiau oedran eang. Gwnaed ymarfer 'real' trwy ofyn i'r rhai oedd yn cymryd rhan lunio 'rhestr ddymuniadau buddsoddiad', trwy ddychmygu bod cyfanswm y cyllid Cymorth wedi cynyddu o £50,000. Yna gwnaed 'rhestr ddymuniadau dad-fuddsoddi', trwy ddychmygu bod cyfanswm arian Cymorth wedi gostwng o £50,000. Yn olaf, gwnaed cymhariaeth 'benben' rhwng y ddwy restr ar y sail bod cyllid Cymorth yn aros yn ddigyfnewid.

Fel yn y ddwy ardal lle mae'r dull hwn wedi ei ddefnyddio, cynorthwywyd yr ymarfer hwn trwy ddefnyddio technoleg cynorthwyo penderfyniadau Teamworker®. Mae'r system cefnogi grŵp hon yn galluogi i bawb sy'n cymryd rhan bleidleisio'n anhysbys ac adborth ar unwaith o ganlyniad y grŵp. Mae hyn yn galluogi unigolion i ddarparu eu barn mewn amgylchedd llai bygythiol. Mae hefyd yn ysgogi trafodaeth wedi ei chanolbwyntio ar y rhesymau am y gwahaniaeth barn.

Cyflwynwyd ar y cyd gan:
David Cohen, Athro Economeg Iechyd, Prifysgol Morgannwg, Trefforest, Pontypridd, CF37 1DL a
Michael Nugent, Cyfarwyddwr, Third Sector First, Bridleway House,
Newchurch in Rossendale, Lancs BB4 9DR

Response Wrecsam – Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu ymateb i anghenion cyffuriau ac alcohol pobl ifanc.
Cyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Amlinellu gwaith y prosiect yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc, o addysg ac atal i driniaeth a chefnogaeth, ac yn cynnwys fideo a gynhyrchwyd gan bobl ifanc.

Daeth Response Wrecsam i fodolaeth yn 2000 pan ymunodd dau Brosiect Gwasanaeth Ieuenctid yn cael eu hariannu gan Cymorth: y Power Project a'r Early Break Project.
Cafwyd arian gan y Bartneriaeth Ddiogelwch Gymunedol i gyflogi dau weithiwr allestyn cymuned yn 2001. Ychwanegwyd wedyn at y Bartneriaeth yn 2002 trwy ychwanegu Gweithiwr Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc a Thîm Digartrefedd CAIS at y tîm.

Symudodd Response i ganolfan yng nghanol y dref yn 2003, gyda chyfle i alw i mewn ar unrhyw amser. Cafwyd cyllid gan Ymddiriedolaeth Cathleen Davies i gyflogi gweithiwr Merched Ifanc (dan hyfforddiant) yn ardal De Wrecsam. Cafwyd cyllid ychwanegol gan Cymorth yn 2004 i gyflogi secondiad o'r gwasanaethau cymdeithasol i ymateb i'r adroddiad 'Niwed Cudd'.

Gwaith ar y gweill

- Rhaglenni atal/addysg yn cael eu darparu yn holl ysgolion uwchradd Cyngor Bwrdeistref Wrecsam.
- Grŵp craidd prosiect addysg cymheiriaid yn darparu sesiynau i blant a phobl ifanc yn y Fwrdeistref Sirol.
- Cyfleuster galw i mewn agored, yn denu 30 a mwy o gleientiaid dri bore'r wythnos.
- Gweithwyr allestyn cymunedol, yn cysylltu â phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn gyson.
- Cyfnewid nodwyddau/chwistrellau, yn gweithredu yng nghanol y dref ac yn yr ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, 93 o gleientiaid yn ymwneud â'r gwasanaeth hwn.
- Gwaith penodol i ferched ifanc, cefnogaeth i ferched ifanc sy'n defnyddio sylweddau a Phrosiect SIRENS sy'n cynnig sesiynau addysgol i ferched ifanc am beryglon 'treisio ar ddêt'.
- Prosiect WHAM (Beth Amdanaf i) mae'r prosiect hwn yn cael ei dargedu ar blant rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau.
- Hyfforddiant camddefnyddio sylweddau, ystod o hyfforddiant wedi ei achredu a ddarperir i Bobl Ifanc, Aelodau o'r Gymuned a Gweithwyr Proffesiynol.
- Rhaglen 'No Going Back', yn gweithio gyda Sefydliadau Troseddwyr Ifanc Stoke Heath a Thorncross i gynnig gofal i bobl ifanc sy'n dod yn ôl i Wrecsam o'r ddalfa.
- Rhaglen 'Right Start', gweithgareddau i bobl ifanc hyd at 18 oed

Egwyddorion Sylfaenol

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *"Delio â Chyffuriau Gyda'n Gilydd: Y Dull Partneriaeth'"*
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *"Ymestyn Hawliau".*

- Y Gwasanaeth Ymgynghori Iechyd, *"Plant a Phobl Ifanc, Sylwedd Anghenion yr Ifanc".*
- Gwasanaeth Ieuenctid a Chymuned Wrecsam, *"Addewid i Bobl Ifanc".*

Datblygiadau yn y Dyfodol

- Ffurfio Prosiect Addysg Cymheiriaid Gogledd Cymru
- DANOS (safonau galwedigaethol cenedlaethol cyffuriau ac alcohol)
- Darpariaeth Nodwyddau a Chwistrellau symudol
- Chwilio am ganolfannau cymunedol addas i gyflwyno Cyfnewidfa Nodwyddau a Chwistrellau a mentrau ataliol gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chyfleoedd hyfforddi i breswylwyr cymunedau lleol.
- Partneriaeth weithredol gyda Choleg Iâl i greu fideo camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc.
- Cynnwys mewnbwn iechyd rhyw yng ngwaith Response.

Partneriaethau

- CAIS
- Shelter Cymru
- Tîm Cyffuriau Ac Alcohol Cymunedol
- CAHMS
- Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru
- Coleg Iâl
- Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, Parc Caia
- Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, Plas Madog
- Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, Brynteg a Southsea
- Partneriaeth Parc Caia
- Heddlu Gogledd Cymru
- Y.O.S.
- Sefydliad Troseddwyr Ifanc Stoke Heath
- Sefydliad Troseddwyr Ifanc Thorncross

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Martin Gregory, Arweinydd Tîm Gwasanaeth Ieuenctid neu Les William, Cydlynydd Prosiect INFORM, Response Wrecsam, 65 Stryd y Brenin, Wrecsam

Fforwm Rhieni
Cyflwynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn, Barnardo's a'r NSPCC

Braslun o'r broses o sefydlu a rhedeg Panel Rhieni i'r Gwasanaeth Teulu Gwledig a 'Llais Ni' y fforwm a llais plant a phobl ifanc ar Ynys Môn. Gan ddysgu o'r prosesau a'r negeseuon a chamau ar gyfer y dyfodol.

Egwyddorion Sylfaenol
- Thema D – Ymrymuso, Cyfranogiad a Dinasyddiaeth Weithredol
- Amcan Cychwyn Cadarn – Cryfhau Teuluoedd a Chymunedau
- Deilliannau Cyffredin Barnardo's – Plant a phobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yn cymryd rhan wrth siapio a gwerthuso ein gwasanaethau

Cefndir
- Y Bartneriaeth yn cynnwys ystod o ddarparwyr ac is-brosiectau o'r dechrau
- Rhan o rôl Gwasanaeth Teulu Gwledig Barnardo's (GTG) oedd cydlynu a llywio o fewn y bartneriaeth
- Mae Ymwelydd Iechyd Cychwyn Cadarn yn aelod o'r Tîm GTG

Cyfraniad defnyddwyr y gwasanaeth o'r dechrau
- Gwaith ar y cyd mewn cymunedau
- Cyswllt unigol, holiaduron
- Anghenion unigol/cymunedol/cymdogaeth
- Rhai gweithgareddau Cychwyn Cadarn yn cael eu cynllunio o ganlyniad i hyn
- Erbyn 2002-3 aelodau'n cymryd mwy o gyfrifoldeb am grwpiau llywio
- Rhieni eisoes wedi arfer trafod anghenion lleol a chynllunio gweithgareddau
- Wedi arfer cael gwrandawiad i'w syniadau

Panel Recriwtio – y cam nesaf
- Cysylltwyd â rhai grwpiau i wirfoddolwyr ddod i weithdai recriwtio anffurfiol a chychwynnwyd gyda 6 o rieni

Gweithdai
- Cyflwyniad – Rhoddwyd disgrifiad swydd i rieni, buont yn trafod, yn gweithio fel grŵp ar fanyleb person ac yn diwygio manyleb person a gynhyrchwyd yn broffesiynol
- Cyflwyniad i'r broses Gyfweld a pholisïau Cyfle Cyfartal
- Cyfrinachedd gan gynnwys cadw gwaith papur a rhaglenni'n ddiogel
- Defnyddio cwestiynau gosod a system Barnardo's o sgorio
- Sut i reoli'r Panel Rhieni ar y diwrnod.
- Creodd y grŵp gwestiynau a thrafodwyd y dewisiadau ar gyfer cynnal Cyfweliadau
    1) Cynrychiolwyr rhieni ar yr un panel a gweithwyr proffesiynol
    2) Gweithgareddau llai ffurfiol cyn cyfweliad proffesiynol
    3) Panel Cyfweld Rhieni llai ffurfiol gyda Phanel Proffesiynol ar wahân
- Dewiswyd y 3ydd dewis
- Byddai'r penderfyniad terfynol yn nwylo Cadeirydd y Panel Proffesiynol

Pwyntiau sydd wedi datblygu wrth ddefnyddio'r system
- Gall pob panel roi feto ar benodiad person y mae ganddynt bryderon gwirioneddol amdano
- Rhaid i'r ddau banel ymdrin â'r ystod lawn o gwestiynau

- Cefnogi'r panel rhieni trwy'r hyfforddiant i ymdrin â chwestiynau mewn meysydd sy'n newydd iddynt

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â: Lesley Conran, Rheolydd Gwasanaethau Plant, Gwasanaeth Teuluoedd Gwledig, Isgraig, Lôn Newydd, Llangefni, Ynys Môn LL77 7PT

Barn rhieni am wasanaethau yn y blynyddoedd cynnar i blant gydag anabledd Cyflwynwyd gan Cychwyn Cadarn Caerdydd

Pa Gefnogaeth sydd Ar Blant gydag Anghenion Ychwanegol Sylweddol ei Angen yn eu Blynyddoedd Cynnar a Beth yw Anghenon eu Teuluoedd.

Nod yr Astudiaeth

- Cael gwybodaeth gan rieni am yr help a'r gefnogaeth y mae rhieni wedi ei dderbyn ar gyfer eu plentyn ac ar eu cyfer nhw eu hunain
- Cael barn/dymuniad rhieni o ran y math o gefnogaeth y maent wedi ei derbyn; ac unrhyw gefnogaeth ychwanegol a fyddai'n fanteisiol

Dull

Defnyddiwyd cyfweliadau wedi eu strwythuro gyda rhieni 23 o deuluoedd, gan gynnwys 13 o deuluoedd duon/lleiafrifoedd ethnig o bob rhan o ardaloedd Treganna - Sblot yng Nghaerdydd. Roedd y plant yn amrywio o ran oedran o 24 - 60 mis. Roedd 16 o fechgyn a 7 merch. Roedd ganddynt ystod o anableddau, gan gynnwys: awtistiaeth, anawsterau dysgu, anabledd corfforol a nam ar y golwg neu'r clyw. Archwiliwyd y gwahaniaethau rhwng mewnbwn proffesiynol a chefnogaeth naturiol teulu a/neu gymuned.

Crynodeb

Yn dilyn dadansoddiad o'r data a gasglwyd, roedd oblygiadau sylweddol i'r gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar yn gyffredinol ac oblygiadau penodol i'r gwasanaeth Cychwyn Cadarn. Roedd y rhain yn gyson ag ymchwil cyfredol. ESPP (2003) & Shonkoff & Meisels (2000)

- Cydnabod gwahaniaethau eang iawn ac anghenion unigol teuluoedd ar gyfer cynllunio mewnbwn mwy holistaidd
- Disgwyliadau o newid mewn anghenion dros gyfnod o amser
- I rai rhieni o leiafrifoedd ethnig, roedd materion penodol oedd yn gweithredu fel rhwystrau ychwanegol i'w hatal rhag derbyn y gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen.
- Cynllunio ar gyfer cymhlethdodau plentyndod a bywyd teuluol
- Rhaglenni penodol ar gyfer y plentyn
- Cyfleoedd cynhwysedd cymdeithasol ar gyfer y plentyn
- Cefnogi'r rhiant/rhieni
    - Rhoi gwybodaeth i rieni am Cychwyn Cadarn
    - Cyfrannu at gynllunio addas gan asiantaethau
    - Hyblygrwydd yn y ddarpariaeth a derbyn pawb (cynhwysedd)
    - Cynnydd yn yr arbenigedd mewn cydweithio/gweithio ar y cyd
    - Bylchau yn y ddarpariaeth ar adegau trosglwyddo
    - Datblygu ein profiad a'n harbenigedd gyda phlant anabl a'u teuluoedd

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, cysylltwch â:
Sam Carson, Uwch Seicolegydd Addysg, neu Bernice Bird,
Parents Plus, Cychwyn Cadarn Caerdydd, 72 Heol James, Caerdydd CF10 5EZ

Prosiect Ysgolion Estynedig
Cyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Prosiect aml-asiantaethol yn canolbwyntio ar waith ataliol gyda phlant unigol mewn ysgolion cynradd sydd wedi cael eu dynodi fel rhai y gall fod arnynt angen cefnogaeth yn y dyfodol oherwydd lefel o fod yn agored i niwed, diffyg datblygiad neu ymddygiad heriol.
Mae SMARTT Tîm Adnoddau Aml-Asiantaethol Ysgolion Torfaen yn brosiect sy'n cael ei ariannu gan Cymorth ac a grëwyd gan y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc rhwng y sectorau addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Mae'r arian yn rhyddhau amser swyddogion lles addysg, nyrsys cymunedol/ysgol, ymwelwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol i weithio gyda'i gilydd. Mae ffocws y cynllun treialu ar 3 ardal lle mae'r amddifadedd ar ei waethaf. Mae aelod hŷn o staff pob ysgol yn llunio'r bedwaredd asiantaeth yn y tîm craidd hwn

Y Nodau

- Gwella cyfleoedd bywyd plant sydd yn hawdd eu niweidio trwy well darpariaeth o'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi
- Datblygu grwpiau ymarferwyr amlddisgyblaethol sy'n ymwneud â'r disgyblion, rhieni, teuluoedd estynedig a staff yn yr ysgol mewn ffordd sy'n newydd yn sylfaenol
- Darparu un man cyswllt i ysgolion i gysylltu â chefnogaeth gydlyn aml-asiantaethol
- Newid y ffordd y mae asiantaethau proffesiynol yn gweithio

Y grwpiau targed o blant

- Plant o aelwydydd lle mae'r gofalwyr dan bwysau a all effeithio ar iechyd a/neu ddatblygiad addysgol neu gymdeithasol y plentyn
- Plant y mae eu hiechyd neu ddatblygiad addysgol neu gymdeithasol yn cael ei niweidio
- Plant lle mae tebygolrwydd o niwed sylweddol
- Plant sy'n arddangos problemau ymddygiad difrifol yn yr ysgol

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Bill Hill, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Dysgu Gydol Oes, CBS Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB

Rheoli Newid

Cyflwynwyd gan: Cychwyn Cadarn, CBS Torfaen

Arweiniodd monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth Cychwyn Cadarn at newid yng nghynnwys, modd cyflwyno a strwythur trefniadol y rhaglen. Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar reolaeth lwyddiannus ar y newidiadau hyn.

Cynnwys y Gweithdy

Dangos fideo – Cychwyn Cadarn yn Nhorfaen "Helpu Plant i Adeiladu eu Dyfodol"

- Cychwyn Cadarn yn Nhorfaen
- TOGS
- Bws Chwarae Cychwyn Cadarn
- Help Llaw
- 'Play Station'
- Galw i mewn
- Tîm Iechyd
- Homestart Torfaen

Monitro a Gwerthuso

Gwerthuso Mewnol

- Manteision i deuluoedd
- Targedau'n cael eu cyrraedd
- Capasiti dros ben mewn rhai ardaloedd
- Anghenion datblygu staff

Gwerthuso Allanol

- Argymhellion ar gyfer cyllideb i Sefyll yn Llonydd

Sbardun i Newid

- Roedd Deilliant y Gwerthuso'n golygu toriad yn y gyllideb mewn gwirionedd
- Anghyfartaledd mewn cyflog
- Diffyg llwybrau gyrfa
- Materion yn yr asiantaeth sy'n arwain yn golygu costau ychwanegol
- Costau cudd
- Cynnal safon y gwasanaeth
- Materion staffio
- Angen gwneud y gwasanaethau'n hygyrch
- Newidiadau yn y galw mewn ardaloedd gwahanol

Cafwyd trafodaeth wedyn ac ymarferion grŵp gan ddefnyddio'r Gymhareb Boston a dadansoddiad PESTLE, ee: Dewiswch wasanaeth yr ydych chi'n ymwneud ag o a dychmygwch ei fod wedi cael toriad yn ei gyllideb. Mae'n rhaid i chi wneud newidiadau i barhau i ddarparu'r gwasanaeth a chadw at eich cyllideb gan ddefnyddio ffactorau PESTLE. (Mae dadansoddiad PESTLE yn ymwneud â dynodi'r ffactorau a fydd yn cael effaith ar unrhyw newidiadau y gallwch fod yn dymuno eu gwneud i wasanaeth.)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Helen Cole, Cydlynydd Cychwyn Cadarn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Bloc B, Tŷ Mamhilad House, Stad Parc Mamhilad, Pont-y-pŵl

Canolfannau Plant Integredig
Cyflwynwyd gan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd

Grŵp trafod i archwilio materion sy'n ymwneud â Chanolfannau Plant Integredig.

Llywodraeth Cynulliad Cymru: Pwyntiau Allweddol
Cysylltiadau rhwng prosiectau

1. Cysondeb
   - Llinellau atebolrwydd
   - Partneriaethau Plant, Partneriaethau Pobl Ifanc, Partneriaethau Fframwaith, Partneriaethau Datblygu a Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar
   - Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru
   - Amwysedd - negeseuon amwys, eglurder, disgwyliadau, clir

2. Eglurder
   - Paratoi'r ffordd?
   - Cronfa ddatblygu.
   - Cronfa ar gyfer popeth.
   - Arian wedi ei gloi i mewn yn cyfyngu.
   - Deilliannau – Cymorth/ychwanegolrwydd
   - Gwerth ychwanegol
   - Cymorth – Cychwyn Cadarn ar goll
   - Sut gallwn ni fesur deilliannau? (nifer o ymyraethau, asesiadau effaith)
   - Cyllideb addysg
   - Cymorth fel catalydd
   - Prif-ffrydio – datblygiadau
   - Cymorth MK II

<u>Cymorth fel ffordd o ddarganfod y llwybr</u>
- Trosglwyddo i RSG
- Cymorth – Sector Gwirfoddol, Cymorth RSG, Awdurdod Lleol

3. Llywodraeth Cynulliad Cymru – GRŴP YMGYNGHOROL CYMORTH (Aelodau, Cyrff gwirfoddol, cyrff Statudol Iechyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Budd-ddeiliaid)

4. Ystyried Sefyllfa Cymorth yng Nghyswllt y MESUR PLANT, Fersiwn Argraffiad Cymru

<u>Rheolwyr Prosiect</u>
Angen rhagor o gyfathrebu gyda'r fframwaith:
Sut ydym ni'n gwybod beth sy'n digwydd?
Trosolwg yn unig sydd gan gydlynwyr ac mae'n rhaid iddynt gael mynediad at wybodaeth fanylach

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Diane Daniel, Cydlynydd Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, CBS Casnewydd, Ystafell 230, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR

Cymorth yn ei gyfanrwydd
Cyflwynwyd gan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Caerdydd

Nid cyfres o brosiectau yn unig: Grŵp trafod wedi ei drefnu.

Rhaglen Cymorth Pen-y-bont ar Ogwr :

- Dyraniad tua £1.9 miliwn
- 31 prosiect (un ohonynt a phum prosiect llai o'i fewn)
- Sector Gwirfoddol 16 prosiect, 40.3% o'r adnoddau
- Awdurdod Lleol 10 prosiect (yn cynnwys y "5 mewn 1"), 42.3%
- Iechyd 5 prosiect, 17.4%

O ble wnaethom ni gychwyn (Hydref 2002)

- Partneriaeth newydd, Cydlynydd newydd;
- Ychydig dros draean o Cymorth wedi ei ymrwymo i arian cyfatebol rhaglen pobl ifanc Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (hyd Awst 31 2004);
- Cyflwyniad ar gyfer 2003/04 yn golygu ail gyflwyno'r prosiectau oedd yn cael eu hariannu gan y cronfeydd cyn Cymorth, gydag ymrwymiad i adolygiad sylfaenol yn y flwyddyn ganlynol.

Yr hyn a wnaethom ar gyfer cyflwyniad 2004/05

- Paratoi'r rhaglen Cymorth ar wahân i'r Bartneriaeth Plant a Phartneriaeth Bobl Ifanc (camgymeriad MAWR);
- Cytuno ar ddwy ymagwedd wahanol, y ddwy wedi eu bwriadu i "ddatblygu rhaglen o gasgliad o brosiectau";
- Partneriaeth Plant – cytuno i ail ganolbwyntio'r prosiectau cyfredol fel eu bod yn bodloni meini prawf Cymorth a meini prawf newydd gan Fframwaith Pen-y-bont ar Ogwr;
- Partneriaeth Pobl Ifanc – cytuno i gynnal y rhaglen gyfredol hyd Awst 31 2004, ond i ail gomisiynu'r holl wasanaethau o 1 Medi 2004, yn unol â meini prawf Cymorth a'r Fframwaith.

Proses ar gyfer cyflwyniad 2004/05
Partneriaeth Plant

- paratowyd cyflwyniad Powerpoint yn disgrifio'r meini prawf newydd a'r broses ar gyfer Cymorth;
- cynhaliwyd dau gyfarfod ar ffurf seminar i gyflwyno'r cynigion i aelodau'r Bartneriaeth (gan gynnwys gwasanaethau Gofal Plant a Chychwyn Cadarn);
- paratoi "ffurflen hunan asesiad" gyda chyfarwyddyd i fynd gyda hi, fel bod partneriaid yn medru profi eu cynigion, a gweld a ydynt yn bodloni'r meini prawf newydd;
- cynhaliwyd cyfarfodydd i drafod ail-ffocysu posibl prosiectau, gyda holl noddwyr presennol y prosiectau a datblygwyd ffurflen a chyfarwyddyd Cyflwyno Prosiect Cymorth;
- ffurfiwyd Grŵp Ariannu o bartneriaid nad ydynt yn cyflwyno prosiectau;
- ystyriwyd a chytunwyd ar raglen ar gyfer y Bartneriaeth Blant;
- datblygwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth cyffredin oedd yn ymrwymo'r Bartneriaeth i ddarparu cefnogaeth, a glymodd y prosiect i system fonitro gyffredin, gyda chytundeb i gymryd rhan mewn cydlynu achosion.

Prosiectau Partneriaeth Plant yn dod yn rhaglen oherwydd :

- Roedd y prosiectau wedi eu hail-ffocysu tuag at set gyffredin o amcanion a meini prawf;
- roedd y prosiectau'n cael eu comisiynu am dair blynedd;
- roedd raid i'r prosiectau gytuno i ddod yn rhan o system "cydlynu achosion", a ariannwyd gan Cymorth, a fyddai'n datblygu proses gyfeirio, asesu a rheoli achos gyffredin.

Partneriaeth Pobl Ifanc

- Paratowyd cyflwyniad Powerpoint yn disgrifio'r meini prawf newydd a'r broses ar gyfer Cymorth;
- cynhaliwyd dau gyfarfod ar arddull seminar i gyflwyno'r cynigion i aelodau'r Bartneriaeth (gan gynnwys prosiectau Ffocws yr Ifanc, Y Gwasanaeth Ieuenctid, rhwydwaith y sector gwirfoddol);
- paratowyd Dogfen Gomisiynu oedd yn disgrifio :
    - y grŵp cleientiaid (ee gofalwyr ifanc, digartref ifanc ac ati);
    - gwasanaeth i gael ei gomisiynu;
    - deilliannau gofynnol i bobl ifanc.
- paratowyd "ffurflen hunan asesiad" gyda chyfarwyddyd i gyd-fynd â hi, fel bod partneriaid yn medru profi eu cynigion, a gweld a ydynt yn bodloni'r meini prawf newydd;
- datblygwyd ffurflen Cyflwyno Prosiect Cymorth a chyfarwyddyd;
- ffurfiwyd Grŵp Ariannu o bartneriaid nad ydynt yn cyflwyno prosiectau;
- ystyriwyd a chytunwyd ar raglen ar gyfer y Bartneriaeth Blant;
- datblygwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth cyffredin oedd yn ymrwymo'r Bartneriaeth i ddarparu cefnogaeth, ac a glymodd y prosiect i'r system fonitro gyffredin, gyda chytundeb i gymryd rhan mewn cydlynu achosion.

Cyflwynwyd ail gais (aflwyddiannus) i'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, gan ddefnyddio peth o'r prosiectau Cymorth fel arian cyfatebol.

Roedd prosiectau'r Bartneriaeth Pobl Ifanc yn datblygu'n rhaglen oherwydd :

- roedd prosiectau'n cael eu comisiynu mewn set o feini prawf ar sail cleient a meini prawf Cymorth;
- prosiectau wedi eu hail-ffocysu i set o amcanion cyffredin;
- prosiectau'n cael eu comisiynu am dair blynedd;
- roedd rhaid i'r prosiectau gytuno i ddod yn rhan o system "cydlynu achosion", a ariennir gan Cymorth, a fyddai'n datblygu proses gyfeirio, asesu a rheoli achos gyffredin.

Beth fyddwn i'n ei wneud yn y dyfodol

- Comisiynu yn hytrach na gwahodd ceisiadau;
- comisiynu dros y Fframwaith, ar draws y grŵp oedran 0-25 cyfan;
- adolygu a gwella'r dogfennau hunan asesu, cyflwyno a SLA;
- datblygu cydlynu achosion, fel sy'n briodol, wedi'i gysylltu â ffurfio gweithio mewn tîm yn rhaglen Cymorth.

Rhedir ar y cyd gan:

Les Jones, Cydlynydd Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr, Lefel 4, Y Ganolfan Ddinesig, Heol yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 4WB Elfyn Wyn Jones, Cydlynydd Fframwaith, Cyngor Sir Ynys Môn, Adran y Rheolwr Gyfarwyddwr, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW, a
Richard Hibbs, Rheolwr Partneriaeth Fframwaith, Cyngor Sir Caerdydd, Canolfan Trowbridge, Heol Greenway, Trowbridge CF3 1QS

Draig Ffynci,

Cyflwynwyd gan aelodau o'r Ddraig Ffynci

Nod y sesiwn:
Creu trafodaeth o ran cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru
Archwilio syniadau a fydd yn ffurfio datblygiadau mewn cyfranogiad

Gweithgaredd 1 – Enghreifftiau positif/negyddol
Gofynnwyd i'r cynadleddwyr drafod eu profiadau positif a negyddol o gyfranogiad.

Adborth

Positif	Negyddol
Ardal chwarae Canolfan Plant Integredig (Caerffili) – canolbwyntio ar y plentyn	Byddai'n troi yn 'eiriau gwag'
Wedi cynnal ymgynghoriad â phlant trwy ysgolion cynradd gan ddefnyddio seren deledu adnabyddus (Gwynedd)	Cynghorydd o'r farn y dylid cymryd barn plant gyda phinsied o halen; Agwedd 'gweld ond nid eu clywed'
Cynhaliwyd cynhadledd fawr gyda phobl ifanc yn gwneud rap (Pen-y-bont ar Ogwr)	Methu gadael i bobl ifanc wybod beth ddigwyddodd o ganlyniad oherwydd ei fod yn rhy drwm ar adnoddau
Rhianta - ymgynghori wedi ei drefnu. Rhoi camera i blentyn i dynnu lluniau o beth bynnag yr oeddynt yn dymuno. Nid oedd y plentyn wedi siarad am lawer, ond roedd y lluniau wedi rhoi cyfle iddo gyfathrebu. Roedd ei fam wedi synnu at faint yr oedd wedi ei gyfathrebu trwy'r prosiect	Rhaid gwrando a gweithredu ar wybodaeth wrth ymgynghori
Drws i Blant a Phobl Ifanc, lefelau gwahanol o ymlyniad	Peidio bod yn ddidwyll am ddeilliannau
Y broses, ymgynghori â phobl ifanc	Codi disgwyliadau sy'n golygu bod plant a phobl ifanc yn cael eu siomi gan awdurdodau lleol oherwydd yr arian a pheidio cael cefnogaeth awdurdodau lleol
Blaenoriaethau'r Fframwaith yn newid oherwydd ymgynghori	Pa mor effeithiol? Mae Plant a Phobl Ifanc wedi cael gormod o ymgynghori ac a yw'n gwneud gwahaniaeth?
Mae rhai awdurdodau lleol yn ymdrin â materion trwy ysgolion cynradd e.e. Ceredigion	Yn aml iawn nid oes neb yna i symud yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud ymlaen, nid oes cyfeiriad
Llandysul – Un ysgol gynradd wedi newid y fwydlen trwy waith a wnaed gyda rhai 10/11 oed	Symboleiddiaeth yn y Cyngor Symboleiddiaeth Cynghorau Ysgol – barn rhieni amdanynt
Conwy – Mae Cydlynydd Cyfranogiad yn ei swydd ac roedd pobl ifanc wedi cael cymryd rhan yn y broses gyfweld	
Ceredigion – Roedd pobl ifanc wedi'u cynnwys yn y broses gyfweld ar gyfer Cydlynydd Fforwm Ieuenctid	Symbolaidd –yn aml mae pobl ifanc yn cael eu cludo i mewn ac allan 0-10 – Heb ei ddatblygu ddigon, angen gwybod sut i'w wneud yn arbennig ar gyfer 0 – 5

Pobl ifanc yn cymryd rhan ym Mhartneriaethau Pobl Ifanc yng Nghastell-nedd/Port Talbot. Gallant aros am y cyfarfod cyfan os byddant yn dymuno.	Anghytundeb gyda rhieni. Dim adborth pan ymgynghorir â phobl ifanc, gormod o ymgynghori â phobl ifanc!
Mae'r cyfarfodydd yn gyfeillgar i bobl ifanc ac yn haws i oedolion eu deall gan eu bod yn gwneud ymdrech i beidio defnyddio jargon	

Gweithgaredd 2
'Cynhyrchu map o'r prosesau llunio penderfyniadau posibl y gallai plant a phobl ifanc gymryd rhan ynddynt.

Teimlai un grŵp bod plant a phobl ifanc wrth galon y prosesau llunio penderfyniadau, ac edrych ar ba wasanaethau oedd ar gael ar unwaith lle'r oedd pobl ifanc yn medru cyfrannu.

Teimlai ail grŵp bod plant a phobl ifanc wrth ddechrau'r broses lunio penderfyniadau wrth iddynt fynychu grwpiau a phrosiectau, a'u bod yn cael cyfle i gymryd rhan mewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Fforymau Ieuenctid, Cynghorau Ysgol, Draig Ffynci ac ar Lefel Genedlaethol.

Gweithgaredd 3
Cynhyrchu gweledigaeth o gyfranogiad yng Nghymru, yn cynnwys systemau, strwythurau, deilliannau, cyfathrebu ac ati
Adborth o'r grwpiau:-

- Dylai pobl ifanc gael rhyddid, y cyfle, dewis ac adnoddau i gymryd rhan mewn llunio penderfyniadau fel y maent yn dymuno a sicrhau eu bod yn cael eu clywed mewn gwirionedd a bod camau'n cael eu cymryd i ymdrin â'u materion nhw.

- Dylai cyfranogiad gael ei ystyried fel hadyn a'i feithrin yn y ffordd gywir trwy roi amser ac adnoddau i fwydo ei dwf. Bydd canlyniad cyfranogiad yn cymryd blynyddoedd a chenedlaethau efallai i ddatblygu a bydd raid cynnal ei dwf trwy'r amser trwy ariannu. Unwaith y bydd wedi cyrraedd ei botensial bydd yn dechrau bwrw hadau eraill a fydd yn egino a lledaenu.

- Plant a Phobl Ifanc yn y canol gyda chyfathrebu'r ddwy ffordd yn llifo rhwng Cynghorau, Cynghorau Ysgolion, gyda safbwyntiau cenedlaethol a rhyngwladol yn cael eu hystyried. Teimlent hefyd y byddai popeth yn gorgyffwrdd ac yn gweithio gyda'i gilydd.

Y ddelfryd fyddai cael canllawiau clir o ran cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc:

- Potiau dihysbydd o arian
- Safon nod barcud
- Deilliannau positif yn cael sylw ar deledu lleol, papurau newydd ac ati
- Adborth i'r rhai gymerodd ran
- Gwneud cyfranogiad yn statudol
- Dod yn 'norm' nid yn eithriad
- Cael ei gydnabod yn genedlaethol
- Plant a Phobl Ifanc yn cael gwybodaeth am gyfranogiad
- Cyfranogiad yn seiliedig ar gydraddoldeb

Gweithgaredd 4

Pa neges fyddech chi'n hoffi ei roi i'r Gweinidog a beth ydych chi'n mynd i'w wneud o ran cyfranogiad i Blant a Phobl Ifanc yn eich Awdurdod Lleol?

Beth nesaf?

- Mynd ati i weithio ar strategaeth gyfranogiad a'i symud ymlaen a thaenu'r newyddion.
- Er mwyn codi ymwybyddiaeth/ hyfforddi staff/ rhieni i annog cyfranogiad, rhaid i ni gael adnoddau parhaus.
- Rhaid i ni weithio gyda rhieni o'r dechrau i wneud newidiadau i fywydau plant.
- Rhaid newid agwedd - 'gweld a chlywed'.
- Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddylanwadu ar wleidyddion lleol h.y. cynghorwyr Sir a chynghorwyr cymuned ar eu rôl a sut y gallant ymrwymo mewn gwirionedd i hawliau plant a phobl ifanc.
- Rhaid deddfu i wneud cyfranogiad yn gyfrifoldeb i bawb.
- Rhaid i awdurdodau lleol gael rhagor o gyfarwyddyd ar ddulliau cyfranogiad ac adnoddau i gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc.
- Darganfod sut/os yr ydym yn defnyddio adnoddau Draig Ffynci. A yw cynghorau ysgol a Fforymau ieuenctid yn hyrwyddo'r wefan? A yw'r wefan Draig Ffynci bresennol wedi ei chysylltu â gwefannau awdurdodau lleol?
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn gofal ac mewn angen yn cael cyfle i gyfrannu at wneud penderfyniadau ar lefel unigol a lefelau eraill.
- Hyrwyddo cyfranogiad plant ifanc iawn trwy gefnogi rhieni gyda babanod ifanc iawn i ddeall sut i'w cael i gyfrannu a pham.
- Hyfforddiant penodol o ran sut i ymgynghori â dau grŵp penodol 0-10 a 11-25.
- Darganfod ffyrdd positif sy'n hwyl o gynnwys plant a phobl ifanc ym mhob maes gwasanaeth y maent yn ei ddefnyddio.
- Lansiad cenedlaethol i gyfranogiad. Llais yr ifanc yn y wasg ac ar y teledu, radio, papurau newydd ac ati fel bod plant a phobl ifanc yn GWYBOD beth yw eu hawliau ac yn GWYBOD am lwybrau i fynegi eu barn.
- Ystyried ffyrdd y gallwn ddwyn pobl ifanc i mewn i gyfarfodydd cyn partneriaeth sector gwirfoddol.
- Gwneud yn siŵr bod cyfranogiad ar agenda pawb.
- Llunio cysylltiad gyda swyddog cyfranogiad newydd a gweithwyr eraill i rannu gwybodaeth.
- Rhedeg prosiect i asesu cyfranogiad pobl ifanc mewn cyrff sy'n bartneriaid gan ddefnyddio 'Arolygwyr Ifanc'.
- Datblygu cyfleoedd cyfranogiad pobl ifanc 'Amdanaf i'.
- Bod yn fwy ymwybodol o farn y Fforwm Pobl Ifanc wrth eistedd ar Bartneriaethau Pobl Ifanc.

Meddyliau wrth gloi

Rhoddwyd cyfle i'r rhai a gymerodd ran gofnodi unrhyw feddyliau wrth gloi:

- Wedi mwynhau'r gweithdy;
- Angen rhagor o sylw i'r Ddraig Ffynci;
- Hoffi 'Draig Ffynci' fel safle – edrych ymlaen at ragor o ddeunydd i rai dan 10;
- Llawer o hwyl -Gwych!
- Sesiwn wych, mae'n rhaid i ni roi ystyriaeth lawnach cyn gynted â phosibl i ymgynghori 0-10.

- Gweithdy diddorol iawn ac yn gwneud i ni feddwl - Diolch yn fawr.

Trefnwyd gan: Melanie Blake a Teresa Sadler, Gweithwyr Datblygu, Draig Ffynci, Frigate House, Cei'r Gorllewin, Rhodfa'r Cei, Abertawe SA1 1SR www.funkydragon.org.uk

Plant sy'n dod Gyntaf: Cefnogi Cymorth

Cyflwynwyd gan: Gymdeithas Gofal Plant Genedlaethol Cymru

Cynllun sicrwydd ansawdd wedi ei gydnabod yn genedlaethol ar gyfer Rhwydweithiau Gofal Plant a gefnogwyd gan Fuddsoddwyr Mewn Plant.
Aseswyd 195 o ofalwyr plant, 14 Rhwydwaith, Yn cefnogi 184 o blant yn ystod Awst 2004

Darparu Ystod o Ofal Plant o Ansawdd

- Cefnogeth amlddiwylliannol
- Cefnogaeth Rhieni Arddegau
- Gofal Plant Cymunedol
- Cefnogaeth i rieni sy'n dioddef stres
- Cefnogi plant a theuluoedd gydag anabledd
- Gwasanaeth Prawf
- Darparu gofal plant i rieni sy'n gweithio
- Darparu profiad chwarae o ansawdd uchel
- Addysg blynyddoedd cynnar
- Gofal plant tu allan i'r ysgol
- Gofal gwyliau
- Min nos a phenwythnosau

Targedau Cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru:
Rhwydweithiau Gofal Plant yn Cefnogi Teuluoedd

- Gofal plant o ansawdd
- Rhieni sy'n gweithio
- Cefnogaeth rhieni arddegau
- Cefnogaeth arbenigol i blant gydag anabledd
- Awdurdod Lleol
- Prosiectau/targedau Cymorth
- Teuluoedd sy'n cael anawsterau
- Gwasanaeth nad yw'n fygythiol

Hyfforddi, Mentora a Gwybodaeth

- Darparu hyfforddiant Gofal Plant Lefel DCP/ECP NVQ3.
- Hyfforddiant arbenigol
- Gofal Plant o Ansawdd
- Rhieni'n dilyn hyfforddiant
- Gwybodaeth i rieni

Chwarae Hamdden a Chyfoethogi

- Profiadau chwarae o ansawdd i blant 0 - 8 oed a thu hwnt
- Babanod a chyn oedran ysgol
- Brecwast a gofal tu allan i'r ysgol
- Gwyliau
- Min nos a phenwythnosau
- Integreiddio plant gydag anableddau
- Cynlluniau benthyca teganau

Gwella Iechyd

- Gwiriadau Iechyd a Diogelwch cryfach
- Cefnogaeth rhieni arddegau
- Diogelwch
- Diet/maeth
- Atal damweiniau
- Imiwneiddio
- Gofal dannedd
- Atalcenhedlu

Datblygu Cymunedol

- Rhwydweithiau gofal plant
- Ar gael yn lleol
- Yn y cartref
- Cefnogi mentrau lleol
- Hyfforddiant lleol

Ymrymuso, cyfranogiad a dinasyddiaeth weithredol

- Gofal plant hunan gyflogedig o ansawdd
- Datblygu gyrfa
- Gwasanaeth cynhwysol i bob plentyn
- Rhwydwaith amlddiwylliannol yn cefnogi ymwybyddiaeth amlddiwylliannol
- Chwilio am farn plant a rhieni'n weithredol
- Datblygu cymunedol
- Gwasanaeth cymunedol cynaliadwy

Ariannu

- Cymorth
- Adran 17
- Cychwyn Cadarn
- Amcan 1
- Grant addysg
- Grant gofalwyr
- Cynllun sector gwirfoddol

Rhwydweithiau Gofal Plant

- Grwpiau ffurfiol o ofalwyr plant
- Yn cael eu cynnal a'u cefnogi
- Cydlynydd Rhwydwaith
- Asesiad annibynnol
- Cymeradwyaeth 3 blynedd
- Gofalwyr Plant a achredwyd yn cael eu harchwilio gan Estyn

Y Cydlynydd

- Yn recriwtio gofalwyr plant sydd wedi cofrestru sy'n gweithredu i safonau Siarter Gofal Plant o Ansawdd NCMA
- Yn talu ymweliadau monitro yn gyson
- Yn darparu a threfnu cyfleoedd hyfforddi
- Yn rhoi cefnogaeth ymarferol e.e. benthyca teganau ac offer
- Yn cynnig cyngor a gwybodaeth
- Yn darganfod gofalwyr plant addas i deuluoedd penodol
- Yn cysylltu gyda'r Bartneriaeth Datblygu a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar ar ddarparu addysg gan ofalwyr plant wedi eu hachredu

Prif gasgliadau'r Prosiect

- Yn gwneud cyfraniad sylweddol at ansawdd y gofal plant a gynigir gan ofalwyr plant
- Yn cynyddu statws gofal plant yn llygaid gofalwyr plant a rhieni
- Yn cynnig peirianwaith pwerus i gefnogi gofalwyr plant
- Yn dangos arwyddion o helpu i gadw gofalwyr plant

Ymateb Defnyddwyr

"Mae fy merch yn fwy hyderus wedi mynd i grwpiau mam a'i phlentyn"
"Mae gennyf fwy o hyder, gan na fyddwch yn mynd i grwpiau ar eich pen eich hun"
"Mae ymddygiad fy mab gartref ac yn y feithrinfa wedi gwella"
" Mae fy mab wedi tawelu i lawr yn fawr iawn"
"Fe fu'n wych, dwi ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi ei wneud hebddo, yn union beth oedd arnaf ei angen"
"Mae gofal plant o fantais fawr i'r teulu"

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â: Sian Davies, Rheolydd Datblygu, Cymdeithas Gofal Plant Genedlaethol, 4 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ

Gofalwyr Ifanc
Cyflwynwyd gan: NCH Cymru

Mynychodd 4 o bobl y gweithdy yn hyrwyddo fideo a wnaed gan Ofalwyr Ifanc Bro Morgannwg i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc. Gwelwyd bod y fideo yn un llawn gwybodaeth ac aethant â chopi i'w dangos i'w hawdurdodau.

O'r fideo cynhaliwyd trafodaeth ar faint o ofalwyr ifanc sydd yng Nghymru a'r math o gymorth y mae arnynt ei angen. Roedd y fideo yn fan cychwyn da gan fod y gofalwyr ifanc eu hunain yn dweud wrthym beth sydd arnynt ei angen a beth maen' nhw'n feddwl sy'n dda.

Er mai gweithdy bach oedd hwn bu o fudd i bawb fu'n bresennol, gan ein bod yn medru trafod y pynciau llosg ar ffurf grŵp bychan.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Jane Weeks, Rheolydd Prosiect, NCH Cymru, Canolfan Adnoddau Teulu a Chymuned Penarth, 14 Albert Crescent, Penarth CF64 1DA

Trosolwg o Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Arbenigol Tier Three
Cyflwynwyd gan: Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc, Gwent

Golwg ar y broses ofal i bobl ifanc, o'u cyfeirio hyd eu rhyddhau, gyda phwyslais ar weithio ar y cyd a'r trefniadau sy'n ymwneud â rhagnodi sylwedd arall.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Sarah Pugh, Swyddog Hyfforddi, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc, Tŷ Maindiff Court, Ysbyty Maindiff Court, Ffordd Ross, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 8NF

Gweithio gyda Thadau
Cyflwynwyd gan: NCH Cymru/CBS Castell-nedd Port Talbot
a thadau o'r prosiect

Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar wersi a ddysgwyd yn ystod y prosiect a chynigiodd awgrymiadau ar gyfer cael tadau i gymryd rhan mewn gwaith rhianta yn llwyddiannus.
Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Gareth John, Uwch Weithiwr Prosiect, Prosiect Cefnogi Teuluoedd Castell-nedd Port Talbot, NCH Cymru, 85-87 Llansawel Crescent, Llansawel, Castell-nedd SA11 2UW

Integreiddio Gwasanaethau i gynnig gwell cefnogaeth i deuluoedd. Cyflwynwyd gan Gyngor Sir Benfro

Gan ddefnyddio astudiaethau achos, cyflwynodd y Cydlynwyr Cymorth yr arfer gorau wrth integreiddio gwasanaethau cefnogi teuluoedd trwy Cychwyn Cadarn, Partneriaethau Datblygu a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar a Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.
Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Claire Cox, Cydlynydd Cymorth 0-10, Cymorth Sir Benfro, 22 Wavell Crescent, Doc Penfro SA72 6LS

Partneriaeth dros Chwarae
Cyflwynwyd gan: Cychwyn Cadarn/Cyngor Sir y Fflint

Cychwynnwyd y prosiect hwn gan rieni ac fe'i datblygwyd i helpu rhieni sy'n defnyddio Cychwyn Cadarn sydd â phlant hŷn hefyd. Arweiniodd ymagwedd aml-asiantaethol at gyfleoedd i bobl ifanc i gymryd rhan, gan gael cymhwyster ADSAN.
Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â: Elin Gwynedd, Swyddog Datblygu Fframwaith a Phartneriaeth Pobl Ifanc Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND

Gweithio mewn Partneriaeth gyda Rhoi Cymunedau'n Gyntaf
Cyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Enghraifft o sut y mae partneriaeth flaengar wedi galluogi Merthyr Tudful i ddatblygu model Cychwyn Cadarn i gynnwys y fwrdeistref gyfan gan ymestyn yr ystod oedran i 4 oed.
Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â:
Rhian Matthews, Cydlynydd Rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf,
CBS Merthyr Tudful, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN

Negeseuon o'r gweithdai

Beth yw manteision y broses dendro o ran darparu gwasanaeth?

- Gall fod yn boenus
- Gall gymryd llawer o amser
- Ond hefyd gall gynnig eglurder

A oes gwrthdrawiad rhwng Cychwyn Cadarn a disgwyliadau Gwasanaethau Cymdeithasol o Cychwyn Cadarn?

- Rhaid cael eglurder am rôl Cychwyn Cadarn mewn gwaith ataliol
- Prosiectau'n glir am y cyfraniad y gallant ei wneud i'r Cynllun Amddiffyn Plant
- Mae rhai prosiectau yng Nghymru yn gwrthod rhai sy'n cael eu cyfeirio ar gyfer achosion amddiffyn plant.

Neges at y Gweinidog ar gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc:

- Rhaid i LICC ddarparu deddfwriaeth i Awdurdodau Lleol, a fydd yn dylanwadu ar newid gyda gwleidyddion, cynghorwyr lleol ac yn helpu i ddatblygu strwythurau mewn Awdurdodau Lleol.
- Rhagor o adnoddau ar gyfer hyfforddi, staff ac arian i wneud gweithgareddau o amgylch cyfranogiad.
- Byddwch o ddifri, rhowch amser iddo a gadewch iddo dyfu

Rhaid i weithio aml-asiantaethol a chydlyn gael ei adeiladu ar eglurder a pharch i rolau pobl eraill.

Mae angen rhoi cefnogaeth ac adnoddau i waith ataliol, gan gynnwys datblygu gwasanaethau fel Cychwyn Cadarn y tu allan i'r ardaloedd a dargedir.

Nid yw gwasanaethau ataliol ac arian tymor byr yn gweithio ac mae'n anodd cyflawni mewn hinsawdd o ymateb i argyfwng.

Mae Canolfannau Integredig angen mwy na dwy awr, rhaid cael diwrnod cyfan a chyfle i rwydweithio'n rhanbarthol. Mae pryderon am ariannu yn y tymor hir.

Nid yw natur wledig yn cael ei gydnabod mewn mynegeion amddifadedd e.e. un o'r dulliau o fesur ffyniant yw mynediad at gar - nid moeth yw hyn ond anghenraid sy'n cyfateb i'r bil am fwyd mewn ardaloedd gwledig.

Trafnidiaeth - problemau anferth sy'n gwaethygu natur ynysig, trafnidiaeth am ddim i blant a phobl ifanc yn ddiwerth os nad oes trafnidiaeth ar gael.

Rhaid cael llais gwledig sut gallwn ni/sut dylen ni ymdrin â hyn?

Rhaid i'r Cynulliad gydnabod bod y fformiwla bresennol ar gyfer ariannu yn ôl dyraniad yn anfanteisiol iawn i gymunedau gwledig ac felly mae Partneriaethau Fframwaith yn debygol iawn o fethu yn eu hymdrechion i gael hawliau cyffredinol i bob plentyn a pherson ifanc.

Rhaid i ni ddatblygu peirianwaith casglu data monitro cyffredin gyda chytundeb ar draws Cymru.

Mae datblygu'n cymryd amser, a bydd ariannu tymor hir yn sicrhau datblygiad a swyddi.

Fformiwla ariannu yn seiliedig ar angen ac nid poblogaeth

Mae llawer iawn o ffyrdd o ddatrys y broblem gan fod Cymru'n wlad mor amrywiol. Rhaid dathlu'r atebion gwahanol yn ogystal â chydnabod arfer da presennol.

Y sector gwirfoddol a'r Fframwaith dros Bartneriaeth
Trwy weithio'n gydweithredol gallwn greu llinyn o obaith sy'n cyflawni dyheadau bywyd plant a phobl ifanc a hawliau cyfartal i bawb yng Nghymru. Pan fydd y llinyn yn cynnwys:

S Cefnogaeth
T Ymddiriedaeth
R Adnoddau
E Cydraddoldeb
A Yn Gyraeddadwy
M Arian

Rhaid bwrw iddi o ran ariannu a'r cwestiwn o sut y gellir sicrhau Cymorth ar ôl 2008.

Dysgu oddi wrth yr hyn sy'n bodoli a stopio ail-ddyfeisio'r olwyn, gan gynnwys edrych ar arfer da y tu allan i Gymru.

O ran gwasanaethau i blant anabl a phobl ifanc, mae dwy neges: y cyntaf am ddatblygu system gweithiwr allweddol i gefnogi teuluoedd; ac yn ail am ddatblygu dealltwriaeth gyffredinol o'r hyn a olygir wrth gefnogaeth lle bydd teuluoedd yn deall yr hyn y mae gweithwyr proffesiynol yn ei ddeall.

Gwasanaethau diwnïad o wasanaethau plant i oedolion i bobl ifanc hawdd eu niweidio y bydd arnynt angen cefnogaeth barhaus.

Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol – codwyd y cwestiwn am beth sy'n digwydd i bobl ar ôl 25 oed ac yn canolbwyntio ar yr angen am wasanaethau diwnïad rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

Dyrannu adnoddau fel bod blaenoriaeth yn cael ei roi i gydlynu asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant yn yr ysgol a gyda'r ysgol ar lefel cynradd ac uwchradd. Mae'n arbennig o bwysig ar lefel uwchradd, lle gall dros 20 o wahanol asiantaethau weithio ar unrhyw un adeg mewn ysgol.

Gwerthuso'r Gynhadledd



- "Teimlaf ei bod yn bwysig i gael Cynhadledd yma bob yn ail flwyddyn- cyfle i'r holl bartneriaethau i rannu ymarfer da a datblygu syniadau newydd".

- "Llongyfarchiadau i Blant yng Nghymru ar y trefniadau. Llawer mwy diddorol a defnyddiol na'r disgwyl. Wedi cael llawer o syniadau i fynd yn ôl i'r Bartneriaeth".

- "Mae'n dda gallu trafod problemau gyda chydweithwyr ledled Cymru a hefyd rhannu arferion da ond weithiau beth am inni gael ein harwain gan y Cynulliad trwy dderbyn dull cenedlaethol o weithredu e.e. dull o ymgynghori a phlant a phobl ifanc sy'n deg a phlant a phobl ifanc i bob asiantaeth i'w defnyddio! (yn cynnwys canllawiau pendant i asiantaethau sy'n dymuno ymgynghori) Diolch."

- "Llongyfarchiadau i Blant yng Nghymru am ddigwyddiad sydd wedi ei drefnu'n dda a roddodd gyfle da i glywed am arfer da a rhannu barn a syniadau. Roedd awyrgylch positif iawn am y digwyddiad cyfan."

- "Da ar y cyfan. Ond am 2 ddiwrnod allan o'r gwaith dim ond siawns i drafod/mynychu 4 gweithdy. Buddsoddiad trwm (yn ariannol ac mewn amser)"

Pobl Ifanc

- "Cyfle da i gwrdd â gwasanaethau eraill-siomedig fod ddim mwy o bobl ifanc yma, beth oedd y rheswm?- dim wedi cael gwahoddiad neu dim wedi ateb 'no".

- "Digwyddiad defnyddiol iawn i rwydweithio a chael gwybodaeth/syniadau. Byddai'n dda iawn i ragor o bobl ifanc a rhieni fynychu."

.

- "Siomedig nad oedd rhagor o bobl ifanc yn cymryd rhan."

- "Angen denu partneriaid eraill - WDA, ELWA, pobl ifanc"

- Llongyfarchiadau i Blant yng Nghymru am y gwaith aruthrol yn trefnu'r gynhadledd, braidd yn siomedig fod 'na ddim mwy o bobl ifanc wedi'i cynrychioli

Gweithdai

- "Efallai tro nesaf mwy o weithdai ond yn fyrrach o ran amser i rannu mwy o arfer da a negeseuon allweddol."

- "Roedd y sesiwn olaf 'Cymorth yn ei gyfanrwydd' yn nes at yr hyn yr oeddwn i ei eisiau o'r gynhadledd. Nid oedd dewis ychydig o brosiectau allan o'r 900 a mwy ar draws Cymru mor ddefnyddiol."

- "Byddai wedi bod yn fuddiol petaem wedi gallu treulio amser yn trafod y gofynion beichus (gweinyddol/adroddiadau/cynlluniau) a ddisgwylir gan Awdurdodau Lleol/swyddfeydd Cymorth gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru – rhaid rhesymoli pethau!!"